# CYNLLUN Y CYNGOR

## ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

## 2022-23







wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD GAN YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR ..... 3

CYFLWYNIAD I ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2022/23 ..... 5

YNGHYLCH YR ADRODDIAD HWN ..... 6

AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL ..... 7

SUT YDYM YN ASESU EIN CYNNYDD ..... 7

PANDEMIG COVID-19 ..... 9

CRYNODEB O BERFFORMIAD ..... 11

ASESIAD O'N CHWE AMCAN LLES A BLAENORIAETHAU GWELLA ..... 13

DATGARBONEIDDIO A DATBLYGU EIN HAMGYLCHEDD ..... 13

DATBLYGU'R ECONOMI ..... 18

SICRHAU BOD PAWB YN DDIOGEL ..... 27

SICRHAU CYNGOR MODERN A CHRYF ..... 40

GWELLA ADDYSG UWCHRADD ..... 50

HYRWYDDO IECHYD A LLES (GAN GANOLBWYNTIO AR OFAL CYMDEITHASOL PLANT) ..... 60

RHEOLI EICH ARIAN - 2022/23 ..... 68

CYLLIDEBU ARIANNOL 2023/24 ..... 69

ATODIAD 1: PERFFORMIAD AMCAN CYDRADDOLDEB ..... 70

# CYFLWYNIAD GAN YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Croeso i adolygiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'n perfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor (2020-2023). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein gwerthusiad o lwyddiant wrth gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; sef creu cymunedau lle mae pobl sy'n byw yma yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, i ffynnu a chyflawni safon uchel o les. Er mwy gwireddu hynny rhaid bod yn arweinydd cymunedol cadarn a chynhwysol gyda ffocws ar werthoedd ac ymddygiadau cryf. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod 2022/23 ac ar draws yr holl gynllun i adnabod yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod 2020-23 o'n taith o ran gwelliant; tuag at gyflawni ein gweledigaeth. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o sefydlu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn ein Cynllun y Cyngor newydd (2023-28).

Yn 2020 lansiwyd gweledigaeth newydd a Chynllun y Cyngor i gyd-fynd â hynny, o fewn y cynllun roedd manylion am ein Amcanion Lles a Blaenoriaethau o ran Gwelliant ar gyfer y tair blynedd nesaf ac roedd yn cynnwys gweithgareddau a rhaglenni a fyddai'n ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'n cyfraniad i Nodau Lles Cymru. Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu ein cynllun yn 2019 ac er fod y cynllun o fewn camau terfynol o'r gwaith datblygu, roedd y pandemig a'r cyfnod clo cenedlaethol yn golygu bod angen i ni ail-edrych ar flaenoriaethau'r cyngor ac adlewyrchu ar effaith pandemig Covid-19 cyn cyhoeddi'r cynllun ddechrau 2020. Ar y cyfnod hwn ni wnaethon ni sylweddoli effaith a hyd y pandemig a'r gwaith o adfer wedi argyfwng digynsail sydd wedi bod yr argyfwng mwyaf o'i fath i'r Fwrdeistref Sirol ei wynebu mewn cenedlaethau. Nid oes unrhyw amheuaeth fod y pandemig a'r adferiad o hynny wedi cael effaith sylweddol ar ein gwasanaethau wrth i'n hadnoddau gael eu hailgyfeirio er mwyn lleihau neu liniaru'r risgiau.

Yn dilyn pandemig Covid-19, mae cymunedau cenedlaethol ac awdurdodau lleol wedi cael eu heffeithio gan nifer o heriau newydd yn cynnwys yr argyfwng costau byw, a Rwsia yn ymosod ar yr Wcráin sydd wedi cael effaith ar ein heconomi gan weld cynnydd mewn costau bwyd a nwy. Mae hynny wedi effeithio ar ein hamserlen i gwrdd â'n holl ganlyniadau a gytunwyd arnynt yn wreiddiol ar ddechrau Cynllun y Cyngor, gan ein bod wedi gorfod ailgyfeirio ein hadnoddau i gefnogi'r achosion sydd wedi codi.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn mae yna gymaint y gall ein Bwrdeistref Sirol fod yn falch ohono drwy gydnabod, deall ac ymrwymo i fynd i'r afael â'r achosion hyn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad o'n cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles a Blaenoriaethau Gwella ac rydym yn falch o rannu cyflawniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod cyfnod Cynllun y Cyngor (2020-23) ac yn arbennig y flwyddyn ddiwethaf (2022/23) wrth gydnabod lle na fu'r cynnydd disgwyliedig. Mae rhai o'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Cymeradwyo ein Cynllun Datgarboneiddio gan gydnabod y siwrnai hirdymor ar gyfer 2021-2039.
- Ein perfformiad cyson dda o ran ailgylchu a chompostio, a chwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru yn gyfforddus gan fod yn y chwartel uchaf ar draws Cymru.
- Gorffen o fewn y pedwar olaf yn y gystadleuaeth Dinas Diwylliant 2025, er gwaethaf ymgeisio am y tro cyntaf.
- Sicrhau £5.4 miliwn mewn cyllid cyfalaf a £800,000 i sefydlu Amgueddfa Pêl-droed i Gymru.
- Adnewyddu Adeiladu'r Goron yng nghanol y ddinas i gyd-fynd a bwriad y Cyngor i

ddefnyddio ffyrdd mwy modern o weithio, a chyhoeddwyd fel enillydd gwobr 'Ystadau Cymru' Llywodraeth Cymru yn arbennig ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol, yn ogystal â derbyn y wobr 'Enillydd Terfynol.'

- Mae canran y cwsmeriaid sy'n teimlo ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor wedi aros yn uwch na'r targed diwedd blwyddyn o 90%
- Lansiwyd Canolfan Aml-Ddiwylliant Wrecsam i gefnogi ymrwymiad cymunedol llawer gwell.
- Wedi cynnal nifer isel o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn gyson gyda lleihad o dri i ddau ym mlwyddyn olaf y cynllun.
- Yn ystod cyfnod 05/09/22 i 17/03/23, y presenoldeb ysgol yn gyffredinol ar gyfer Wrecsam (yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd) oedd 91%, dyma'r uchaf yng Nghymru ac mae'n dystiolaeth o effaith y gwaith sydd wedi cael ei wneud.
- Roedd pum ysgol uwchradd ar ddechrau Cynllun y Cyngor mewn categorïau statudol 'dilynol' Estyn. Cafodd hynny ei leihau i un yn ystod cyfnod Cynllun y Cyngor, penderfynwyd ar dargedau Cynllun y Cyngor yn y cyfarfod.
- Gwasanaethau Plant wedi cynnal perfformiad gwych mewn sicrhau fod plant/pobl ifanc yn cael eu gweld fel rhan o'u hasesiad gofal cymdeithasol. Mae hynny'n amlygu'r gwerth y mae'r adran yn ei roi ar lais, dewis a rheolaeth y person ifanc yn ystod y broses asesu.
- Mae'r cyngor wedi cynnal Safon Iechyd Corfforaethol Aur gydag adroddiadau asesu positif yn cydnabod y broses y mae'r cyngor yn ei ddefnyddio i gefnogi lles gweithwyr trwy amrywiaeth o fentrau.

Manylion pellach o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud i gyflawni pob un o chwe blaenoriaeth y cyngor wedi'u cynnwys yn nhudalennau blaenoriaethau unigol o fewn yr adroddiad hwn. Wrth gydnabod y cyraeddiadau hyn hoffem ddiolch i'n cynghorwyr, gweithlu, cymunedau a phartneriaid am eu hymrwymiad, cydweithrediad a phenderfyniad wrth ddarparu a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau yn Wrecsam. Rydym yn falch o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni ac mae'r adroddiad yn cynnig y cyfle i ddathlu'r llwyddiannau helaeth hyn.

Wrth symud ymlaen gyda'n taith i wella, mae'r adolygiad o'n cynnydd yn erbyn blaenoriaethau presennol y cyngor wedi ein helpu wrth i ni gynllunio cyfeiriad y cyngor yn y dyfodol a blaenoriaethau newydd y cyngor ar gyfer 2023-28. Mae hynny ar y cyd â dadansoddiad o ddata ac ystadegau, negeseuon ac adborth wedi'u cyhoeddi o weithgareddau cyfranogi, trafodaethau gyda swyddogion, gweithdai gydag Aelodau ein Cyngor ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y blaenoriaethau a'r gweithgareddau hyn a fydd yn eu tanategu i'w cael yn ein Cynllun y Cyngor 2023-28 newydd a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor ym Medi 2023.

Rydym yn teimlo'n gyffrous ac yn frwdfrydig iawn ynglŷn â dyfodol Wrecsam wrth i ni ddechrau ar y cam nesaf o'r daith i wella drwy gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer pobl a chymunedau Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**Cllr Mark Pritchard – Arweinydd y Cyngor**

**Ian Bancroft – Prif Weithredwr**

# CYFLWYNIAD I ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2022/23

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at Fwrdeistref Sirol tecach, ac ystyried ein dyletswyddau o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb i wneud yn siŵr fod pawb yn cael eu trin yn gyfartal rydym wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol(2020-2024) ynghyd â Chynllun y Cyngor (2020-23). Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi cyfres o amcanion cydraddoldeb sydd wedi cael eu hintegreiddio i holl flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Eleni mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol yn darparu adolygiad o berfformiad yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ac amcanion cydraddoldeb cysylltiedig. Seiliwyd ein hamcanion ar anghenion a ddynodwyd yn lleol gyda'r nod o wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Drwy gynnwys yr amcanion, cerrig milltir a mesurau cydraddoldeb hyn yn ein Cynllun y Cyngor (2020-23), rydym wedi sicrhau eu bod nhw'n cael y lefel uchaf o flaenoriaeth.

Ar ddiwedd Cynllun y Cyngor (2020-23) rydym wedi gwneud cynnydd da gyda nifer o'n hamcanion cydraddoldeb diolch i ymrwymiad a gwaith caled ar y cyd gan holl adrannau'r Cyngor; fodd bynnag, mae digwyddiadau diweddar megis pandemig Covid-19 wedi amlygu unwaith eto yr anghydraddoldebau dwfn sydd yn ein cymdeithas, ac ar gyfer rhai ardaloedd, wedi eu gwaethygu. Felly, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i yrru'r gwaith a nodwyd yn ein hamcanion cydraddoldeb ymlaen yn ein Cynllun y Cyngor (2023-28), a byddwn yn parhau i symud ymlaen a darparu ein gweithgareddau i gefnogi hyn. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a nodwyd ar gyfer ein Cynllun y Cyngor 2023-28 newydd. I ddarganfod mwy am ein hamcanion cydraddoldeb newydd a sut y gwnaethom adnabod y rhain, darllenwch ein Cynllun y Cyngor 2023-28 newydd a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor ym Medi 2023.

**Y Cynghorydd Paul Roberts**

**Aelod Arweiniol Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau**



# YNGHYLCH YR ADRODDIAD HWN

Ym mis Ionawr 2021, fe gyhoeddom ein Cynllun y Cyngor (2020-23) sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yng Nghynllun y Cyngor rydym yn cyflwyno ein Hamcanion Lles a'n Blaenoriaethau Gwella (y cyfeirir atynt wedi hyn fel blaenoriaethau'r cyngor) fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth ac esbonio sut bydd ein gweithgareddau a'n rhaglenni'n ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Nodau Lles Cymru, fel y gwelir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

Roedd Cynllun y Cyngor (2020-23) yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n integreiddio'r amcanion llesiant a gytunwyd arnynt ym Mwrdd Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Wrecsam ac ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-24), trwy gynnwys cerrig milltir a mesurau. Mae pob tudalen flaenoriaeth o'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion ar sut y mae pob blaenoriaeth y cyngor yn alinio i Nodau Lles Cymru ac yn adnabod pa gerrig milltir a mesurau sy'n cysylltu â'r amcanion cydraddoldeb.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o ba mor dda yr ydym wedi perfformio yn erbyn ein blaenoriaethau cyngor ar flwyddyn olaf ein Cynllun y Cyngor (2020-23) trwy weithgareddau y dywedom y byddem yn canolbwyntio arnyn nhw. Mae'r crynodeb o berfformiad ar dudalen 11 yn rhoi cipolwg cryno ar ein sefyllfa ar ddiwedd cyfnod Cynllun y Cyngor yn ôl ein mesuryddion perfformiad, ac mae tudalennau 16 i 66 yn rhoi dadansoddiad mwy manwl o flaenoriaethau'r cyngor o dan y penawdau:

- Taith Ein Cynllun y Cyngor 2020-23
- Yr hyn a ddywedom y byddem yn ei wneud
- Prif Gyflawniadau
- Sut y gwnaethom gefnogi cydraddoldeb (ar gyfer blaenoriaethau'r cyngor sy'n cynnwys amcanion cydraddoldeb)
- Sut fuon ni'n mesur cynnydd
- Parhau gyda'n siwrnai i wella - Cynllun y Cyngor 2023-28

Trwy gydol ein gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau o ran Cynllun y Cyngor rydym wedi ymrwymo i'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sydd i wneud yn siŵr fod cenedlaethau'r dyfodol gydag o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni rŵan ac wedi siapio ein proses gwneud penderfyniadau drwy sicrhau ein bod ni'n:

- Edrych ar yr hirdymor fel nad ydym yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Ymgymryd â dulliau integredig fel ein bod yn edrych ar sut mae ein blaenoriaethau'n effeithio ar amcanion lles eraill, yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus eraill;
- Cynnwys pobl sydd â diddordeb i gwrdd â'r amcanion lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff;
- Gweithio gydag eraill (yn cynnwys pobl eraill o fewn y cyngor) mewn ffordd gydweithredol er mwyn darganfod atebion a rennir gyda'r amcanion lles; a
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu rhwystro rhag digwydd neu waethygu.

# AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Mae'r cerrig milltir a'r mesurau o'r amcanion cydraddoldeb o fewn chwe blaenoriaeth y cyngor i'w cael yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu adolygiad o berfformiad yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ac amcanion cydraddoldeb i gyflawni ein gweledigaeth i:

*"Gefnogi'r bobl sy'n byw yma i gyrraedd eu llawn botensial, i lwyddo a chyrraedd safon uchel o les. Byddwn yn arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol i helpu i wneud hynny ddigwydd."*

Mae tudalen 12 yn darparu crynodeb o'r cynnydd yn erbyn pob amcan cydraddoldeb gydag Atodiad 1, gan ail-grwpio'r cerrig milltir a'r mesurau o dan bob amcan cydraddoldeb.

# SUT YDYM YN ASESU EIN CYNNYDD

I wirio'r cynnydd rydym wedi'i wneud i gyflawni blaenoriaethau ein cyngor, fe wnaethom ni fesur pa mor dda rydym yn gwneud o ran cyrraedd cerrig milltir allweddol a mesuryddion perfformiad y gwnaethom eu gosod ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau. Cafodd y rhain eu categoreiddio fel un ai maes lle byddwn ni un ai'n 'cynnal' ein perfformiad presennol neu'n 'gwella' arno. Dylid nodi bod targedau i gynnal ein perfformiad presennol yn gallu bod yn dargedau heriol ac uchelgeisiol wrth eu hystyried yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael.

Mae ein cynnydd yn cael ei wirio bob chwarter gan Fyrddau Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor; ac ar yr adegau hynny, lle nad yw'r meysydd yn bodloni'r disgwyliadau yna maen nhw'n cael eu hail-archwilio ac mae mesurau i fynd i'r afael â hynny'n cael eu cyflwyno. Ynghyd â hyn, mae'r perfformiad yn cael ei adrodd yn ôl i Fwrdd Gweithredol y Cyngor ddwywaith y flwyddyn.

Ar gyfer pob carreg filltir a mesur, mae perfformiad ar ddiwedd Cynllun y Cyngor wedi cael ei feirniadu yn erbyn y graddau COMG canlynol.

## DIFFINIADAU O GERRIG MILLTIR A MESURAU COMG:

- Mae statws gwyrdd yn golygu: cynnydd da iawn wedi cael ei wneud i gyflawni'r garreg filltir hwn / cynnydd da iawn wedi cael ei wneud gyda'r mesur perfformiad.
- Mae statws melyn yn golygu: cynnydd da wedi cael ei wneud i gyflawni'r garreg filltir hwn / cynnydd da wedi cael ei wneud gyda'r mesur perfformiad.
- Mae statws oren yn golygu: cynnydd wedi cael ei wneud i gyflawni'r garreg filltir hwn / cynnydd wedi cael ei wneud gyda'r mesur perfformiad.
- Mae statws coch yn golygu: ychydig neu ddim cynnydd wedi cael ei wneud i gyflawni'r garreg filltir hwn / dirywiad wedi bod o ran cynnydd gyda'r mesur perfformiad.

Ar gyfer pob blaenoriaeth y cyngor, mae perfformiad terfynol ar ddiwedd Cynllun y Cyngor wedi cael ei feirniadu yn erbyn y graddau COMG canlynol.

## DIFFINIADAU COMG BLAENORIAETHAU'R CYNGOR YN GYFFREDINOL

- Mae statws gwyrdd yn golygu; cynnydd da iawn wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol gyda thystiolaeth gadarn o welliant wedi cael ei arsylwi ar draws y mwyafrif o fesuryddion perfformiad allweddol.
- Mae statws melyn yn golygu; cynnydd da wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol gyda thystiolaeth o welliant wedi cael ei arsylwi ar draws y mwyafrif o fesuryddion perfformiad allweddol.
- Mae statws oren yn golygu; cynnydd wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol ond ychydig o dystiolaeth sydd o welliant ar draws y mesuryddion perfformiad allweddol.
- Mae statws coch yn golygu; ychydig iawn o gynnydd sydd wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol a dydi perfformiad ddim yn gwella.

*** Nodwch fod y diffiniadau COMG wedi cael eu diwygio ar gyfer diwedd Cynllun y Cyngor (2020-23), arferai'r statws COMG ganolbwyntio ar berfformiad presennol yn y cyd-destun o weithio tuag at ddiwedd targedau Cynllun y Cyngor.**



# PANDEMIG COVID-19

Wrth adolygu'r cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod Cynllun y Cyngor (2020-23) gyda chyflawni'r canlyniadau mae'n bwysig adlewyrchu ar effaith pandemig Covid-19 a sut mae ymateb i'r argyfwng digynsail hwn yn effeithio bob agwedd o bolisi ac ymarfer y cyngor, yn cynnwys amcanion a blaenoriaethau wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor a holl bartneriaethau a chynlluniau gwasanaeth eraill.

Roedd yna, ac mae yna risgiau cymdeithasol ac economaidd difrifol iawn dal yn gysylltiedig â Covid-19 a'r pwrpas craidd ar gyfer rheoli'r argyfwng oedd lleihau a/neu liniaru'r risgiau hynny. Yn ystod cyfnod Cynllun y Cyngor, dyma ni'n cyflawni rôl leol a rhanbarthol, i gynllunio ac ymateb i'r effaith ar ddarparu gwasanaeth, llywodraethu, lles ein gweithlu, yr economi a'r gymuned ehangach. Yn ystod yr amser hwn mae ein dyletswyddau yn cynnwys Cynllunio Rhag Argyfwng, yn ogystal â bod yn gyfrifol am ddarparu a dosbarthu ffynonellau o wybodaeth a chyngor sy'n gywir, cyson a chefnogol i fudd-ddeiliaid, partneriaid, busnesau a'r cyhoedd ehangach. Roedd gennym hefyd gyfrifoldeb uniongyrchol am les oddeutu 6000 o weithwyr (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n gweithio mewn ysgolion) ac am gefnogi preswylwyr lleol, yn enwedig y rhai mwyaf diamddiffyn.

Mae'r firws wedi cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau'r cyngor - o ran beth y gallwn ei ddarparu a sut y gallwn ei ddarparu. Bu'n rhaid i ni flaenoriaethu darparu swyddogaethau allweddol, tra bod swyddogaethau eraill yn cael eu cynnal ar sail mwy cyfyngedig neu ddim o gwbl yn ystod yr argyfwng. Mae'r effeithiau gwahaniaethol posib o ganlyniad i benderfyniadau'r cyngor ar y rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau ac ar y rheiny gyda nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn flaenllaw trwy gydol yr argyfwng ac yn parhau i fod wrth i ni edrych ar y cyfnod nesaf o'n taith gwelliant.

Wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol ac o fewn cyd-destun Cynllun y Cyngor newydd (2023-28) rydym wedi cydnabod yr effaith anferthol y mae'r argyfwng hwn wedi ei gael ar bawb ac ar bob agwedd o fywyd. Mae'n rhaid i ni fod yn realistig o ran yr effaith hirdymor y mae pandemig Covid-19 wedi ei gael ar ein cymunedau yn arbennig ar y mwyaf diamddiffyn ac ar blant mewn cyfnodau allweddol o'r datblygiad.

Rydym yn gwerthfawrogi'r 'ysbryd tîm' yn fawr a fu yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod y cyfnod hwn gan ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig, gan gyfuno ein adnoddau i ymateb i heriau newydd gydag atebion arloesol a'r gwaith di-flino i gefnogi ein cymuned a chadw ein preswylwyr yn ddiogel. Yn ystod y pandemig dyma gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn:

- Darparu llety i bobl oedd yn ddigartref neu'n cysgu allan yn ystod y pandemig.
- Cynnal a darparu gwasanaethau allweddol a pharhau i ddarparu Gwasanaethau Stryd / Priffyrdd a Gwastraff wyneb yn wyneb.
- Blaenoriaethu'r cynllun atgyweirio brys i eiddo'r cyngor i sicrhau bod gwasanaeth ymateb 24 awr yn cael ei gynnal.
- Gweithio â busnesau a chwmnïau lleol i roi cyngor a'u helpu i sicrhau cyllid gan y Llywodraeth, gan gynnwys grantiau gwerth £3,689,000.
- Cefnogi ysgolion a darparwyr gofal plant i aros ar agor er mwyn gofalu am blant gweithwyr allweddol, ac i'r rhai oedd yn bodloni'r meini prawf am eu bod yn ddiamddiffyn.
- Darparu bwyd a chyflenwadau yn gynnar i blant ac oedolion diamddiffyn, gan wirfoddolwyr o'n gweithlu presennol.

- Darparu bagiau Gweithgareddau Enfys i gefnogi teuluoedd gyda phlant o oedran cyn-ysgol a phlant o oedran ysgol diamddiffyn, gyda'u lles yn ystod cyfnodau o arwahanrwydd.
- Cynnig ystod o weithgareddau i grŵp o ddysgwyr diamddiffyn i hyrwyddo iechyd a chadernid emosiynol gan gynnwys clybiau ieuenctid ar-lein.
- Sefydlu grŵp cynhwysiant digidol gyda chynrychiolaeth ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gefnogi'r rheiny oedd mewn risg o eithrio digidol.
- Dosbarthu iPads i gartrefi gofal er mwyn gallu cynnal ymweliadau ar-lein i deuluoedd.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen frechu genedlaethol a lleol ar gyfer Covid-19, gyda'n partneriaid.



# CRYNODEB O BERFFORMIAD

Wrth i ni ymdrechu i ailgodi ar ein traed ar ôl y pandemig ac i ganolbwyntio unwaith eto ar ein siwrnai gwelliant tuag at gyflawni ein gweledigaeth, mae ein gwaith o gyflawni chwe blaenoriaeth y cyngor ar ddiwedd Cynllun y Cyngor (2020-23) wedi gweld gwelliant sylweddol ar ddiwedd 2022/23, ac mae manylion o'r canlyniadau yr ydym wedi eu cyflawni a'r uchafbwyntiau dros y dair blynedd diwethaf wedi'u cynnwys yn ein hasesiad o bob blaenoriaeth y cyngor, tudalennau 13 i 66.

Fodd bynnag rydym wedi cydnabod nad yw ein holl ganlyniadau, o fewn blaenoriaethau'r cyngor, wedi cael eu cyflawni. Mae pandemig Covid-19 a'r cyfnod adfer wedi cael effaith sylweddol ar ein siwrnai gwelliant ac er ein bod wedi ailymweld â'n cynllun ddechrau 2020, ar y pwynt hwn ni wnaethon wir sylweddoli pa mor hir fyddai'r pandemig a'r cyfnod adfer yn para. Roedd ein holl ganlyniadau yn cael eu cydnabod i wella Bwrdeistref Sirol Wrecsam ond hynny yn ystod cyfnod ansefydlog pandemig Covid-19, argyfwng costau byw ac amgylchedd genedlaethol ansefydlog. Er hynny, a thrwy ein trefniadau rheoli perfformiad, mae cynlluniau wedi cael eu gweithredu i ddod â'r perfformiad yn ôl ar y trywydd iawn o 2020/21.

Mewn achosion lle nad ydym wedi gwneud y cynnydd a ddisgwylied, mae'r meysydd datblygu hyn wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r cynllunio ar gyfer ein Cynllun y Cyngor newydd (2023-28), yn unol â datblygiadau cenedlaethol, blaenoriaethau lleol a heriau presennol.

Wrth adolygu cynnydd y flwyddyn derfynol o Gynllun y Cyngor ac ar ddiwedd y cylch bywyd presennol o gynllun 2020-23, rydym eisiau dathlu cyflawniadau ein cyngor, ein Haelodau, ein swyddogion a'n cymunedau gyda'r cynnydd a wnaed yn ein taith gwelliant ac i edrych ymlaen at adeiladu ar gynnydd ac uchelgeisiau'r Fwrdeistref Sirol dros y pum mlynedd nesaf.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o lefel uchel o'r cynnydd terfynol yr ydym wedi'i wneud gyda phob un o chwe blaenoriaeth y cyngor ar ddiwedd Cynllun y Cyngor a'n teimladau ar sut y gallwn symud y rhain ymlaen i'r Cynllun y Cyngor nesaf a fydd yn cael eu hystyried gan y Cyngor ym Medi 2023.

**Tabl 1**

| BLAENORIAETH Y CYNGOR | Diwedd Cynllun y Cyngor 2020-23 COMG | Symud Ymlaen - Cynllun y Cyngor (2023-28) (Wedi'i ystyried gan y Cyngor ym Medi 2023) |
|---|---|---|
| Datblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd | Oren | Datblygu i gyd-fynd â Chynllun Datgarboneiddio Bwrdeistref Sirol Wrecsam. |
| Datblygu'r Economi | Melyn | Parhau gyda'r flaenoriaeth hon i ddatblygu Wrecsam fel canolfan ddiwydiant a masnach bywiog gydag economi gadarn ac yn gyrchfan o broffil uchel i ymwelwyr. |
| Sicrhau Cyngor Modern a Chryf | Melyn | Parhau gyda'r flaenoriaeth, datblygu canlyniadau newydd ac adeiladau ar y llwyddiant sydd wedi cael ei gyflawni hyd yma. |
| Sicrhau bod pawb yn ddiogel | Melyn | Diwygio'r flaenoriaeth i adlewyrchu problemau yn ymwneud â chostau byw gyda mwy o ffocws ar ddiogelwch ac ar fod yn deg. |
| Gwella Addysg Uwchradd | Melyn | Ehangu i gynnwys holl addysgu a dysgu, adeiladu ar welliannau sydd wedi cael eu gwneud hyd yma. |
| Hybu Iechyd a Lles Da (gyda phwyslais ar wella gwasanaethau plant) | Melyn | Ehangu i gynnwys ffocws ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion, adeiladu ar ein gwelliannau cydnabyddedig mewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant. |

Tabl 2, yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r cynnydd yn gyffredinol yr ydym wedi'i wneud gyda phob un o'r 7 amcan cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys ym mlaenoriaethau'r cyngor a'n teimladau ar sut y gallwn eu symud ymlaen yn y Cynllun y Cyngor nesaf.

| **Amcanion Cydraddoldeb Strategol** | **Diwedd Cynllun y Cyngor 2020-23 COMG** | **Symud Ymlaen - Cynllun y Cyngor (2023-28)** (Wedi'i ystyried gan y Cyngor ym Medi 2023) |
|---|---|---|
| Amcan 1: Lleihau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg. | Melyn | Parhau i ganolbwyntio ar gefnogi'r holl ddysgwyr i wella eu canlyniadau addysgol. |
| Amcan 2: Ymgysylltu â'r rhai sydd yn chwilio am waith ac yn darparu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn helpu i gynyddu nifer y bobl ag anableddau i gael cyfleoedd gwaith a chodi ymwybyddiaeth am y bwlch cyflog i'r grŵp hwn. | Melyn | Parhau i adeiladu ar welliannau a wnaed gan ganolbwyntio ar gefnogi pobl sy'n profi rhwystrau i sicrhau swyddi ac i gynnwys gwell llwybrau i gyflogaeth ar gyfer grwpiau lleiafrifol. |
| Amcan 3: Gwella hygyrchedd y Cyngor | Gwyrdd | Adeiladu ar y cynnydd a wnaed i sicrhau fod holl wasanaethau'r cyngor yn hygyrch a chynhwysol. |
| Amcan 4: Cynnwys pawb a sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth am y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, i wneud penderfyniadau da. | Gwyrdd | Adeiladu ar y cynnydd a wnaed i wneud yn siŵr fod pawb yn ymwybodol o sut y gallan nhw gymryd rhan er mwyn dylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. |
| Amcan 5: Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ethnig ein cymunedau gan sicrhau eu bod yn gynhwysol a chroesawgar. | Gwyrdd | Parhau i ganolbwyntio ar sicrhau fod cymunedau yn gynhwysol ac yn groesawgar drwy hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau. . |
| Amcan 6: Cefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth leol. | Melyn | Parhau'r ymdrech i gynyddu amrywiaeth yn y cyngor o fewn y ffocws isod. |
| Amcan 7: Gwella amrywiaeth a mynd i'r afael â bylchau cyflog yng ngweithlu'r Cyngor | Melyn | Sefydlu'r cyngor fel 'cyflogwr o ddewis' sydd yn gallu recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a chynaliadwy, a pharhau i weithio tuag at leihau unrhyw fylchau cyflog os oes rhai. |

# ASESIAD O'N CHWE AMCAN LLES A BLAENORIAETHAU GWELLA

## DATGARBONEIDDIO A DATBLYGU EIN HAMGYLCHEDD

### TAITH EIN CYNLLUN Y CYNGOR 2020-23

Mae Cyngor Wrecsam yn cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd a natur yn un o bynciau pwysicaf ein hoes. Ar ôl gweithio ar gyfoeth o fentrau lleihau carbon dros y ddegawd diwethaf sydd wedi sefydlu enw da fel arweinydd mewn atebion arloesol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym Medi 2019, a chyhoeddwyd Cynllun Datgarboneiddio ym Mai 2021. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng cymunedau gan sicrhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd, yn ogystal â pharhau i gydweithio gyda phartneriaid, awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

I Fwrdeistref Sirol Wrecsam chwarae ei ran mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang rydym wedi dweud y byddem dros y dair blynedd yn darparu ein Cynllun Datgarboneiddio i sicrhau fod y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol yn gwneud cyfraniad positif i les amgylcheddol a byd-eang. Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried goblygiadau hinsawdd a charbon pob penderfyniad, a sicrhau ein bod yn mesur yr 'effaith datgarboneiddio' ar y penderfyniadau a wnawn.

Yn anffodus yn ystod y cyfnod tair blynedd o Gynllun y Cyngor fe gafodd y flaenoriaeth ei heffeithio'n sylweddol gan bandemig Covid-19; ond fe barhaodd y cyngor i ddarparu'r mwyafrif o'r gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau rheng flaen critigol allweddol. Mae'r broblem gyda chyflenwi cyfansoddiadau trydanol wedi golygu nad ydym wedi gallu cwrdd â'r darged i wella canran y cerbydau trydan o fewn ein fflyd ac mae'r amser y mae wedi'i gymryd i benodi Swyddog Teithio Llesol wedi golygu oedi gyda chynnydd yn y rôl.

Wrth symud ymlaen rydym yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y dair blynedd trwy ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl. Bydd y rhain yn cael eu cefnogi drwy adnabod cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i fonitro effeithiolrwydd, i sicrhau cynnydd gyda chyflawni ein targedau, ac i adnabod lle bydd angen cymryd camau gweithredu pellach er mwyn ein helpu i wneud penderfyniadau

### YR HYN A DDYWEDOM Y BYDDEM YN EI WNEUD:

- Gweithredu'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Datgarboneiddio a datblygu cynlluniau gweithredu manwl gyda blaenoriaeth clir o fewn pob un o bedwar thema'r Cynllun;
- Gweithio gyda phartneriaid i symud prosiectau allweddol ymlaen ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang, gan wella cadernid a chynaliadwyedd lleol a rhanbarthol;
- Cynnal a datblygu ein canolbwynt ar ymwybyddiaeth ailgylchu a rhaglenni addysg gydag aelwydydd ac ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n targedau statudol i ailgylchu a lleihau gwastraff;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried goblygiadau hinsawdd a charbon pob penderfyniad, a sicrhau ein bod yn mesur yr 'effaith datgarboneiddio' ar y penderfyniadau a wnawn; ac
- Croesawu ein rôl fel arweinydd cymunedol, a datblygu cynlluniau cyfathrebu ac ymrwymo sy'n rhannu arfer da, ac yn hyrwyddo newid cymunedol ac ymddygiad unigol.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL O DDATBLYGU A DATGARBONEIDDIO EIN BLAENORIAETH AMGYLCHEDDOL 2020-23

### Ymateb i Bandemig Covid-19

- Cafodd ein trefniadau Cynllunio Rhag Argyfwng eu gweithredu ym Mawrth 2020, gan fodoli am weddill y flwyddyn ar wahân i gyfnod byr dros yr haf pan gafodd y cyfyngiadau eu codi dros dro.
- Cynnal a darparu gwasanaethau critigol allweddol a pharhau i ddarparu Gwasanaethau Stryd / Priffyrdd a Gwastraff wyneb yn wyneb.
- Parhau i ddarparu gwasanaethau gwastraff er bod salwch neu hunan-ynysu wedi amharu ar y gweithlu.
- Parhau gyda'n ymatebion parhaus i drwsio tyllau ffordd. O ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed mae'r gwaith trwsio wedi para am gyfnod hirach. Yn ystod y pandemig dyma ni'n adolygu'r galw ar wasanaethau Priffyrdd ac adnabod rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

### Cynllun Datgarboneiddio

- Cymeradwyo ein Cynllun Datgarboneiddio gan osod ein taith hirdymor ar gyfer 2021-2039.
- Datblygu cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer pob thema yn y Cynllun Datgarboneiddio gan benodi uwch swyddogion i fod yn gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu ar gyfer pob thema.
- Adnabod arweinwyr penodol i adrannau a datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob adran i ganolbwyntio ar newid mewn ymddygiad o ran gweithrediadau gwasanaethau a defnydd o adeiladau.

### Sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol ar gyfer Datgarboneiddio

- Dechrau'r broses o archwilio a mapio'r ymyraethau sydd eu hangen ar gyfer datgarboneiddio holl weithrediadau'r cyngor gyda'r bwriad o sefydlu goblygiadau ariannol amlinellol a chynlluniau i symud ymlaen.
- Adnabod mesuryddion cadarn ar gyfer adrodd ar gyfeiriad y newid mewn sefydliadau sy'n ategu'r broses Adrodd ar Garbon ehangach gan Lywodraeth Cymru.
- Ymgorffori carbon yn ein proses gwneud penderfyniadau trwy broses Asesu Effaith Integredig arfaethedig.
- Mae pum cymuned Carbon Isel wedi'u hadnabod ar gyfer cynllun peilot o weithrediad a chefnogaeth dwys ac mi fyddwn yn gweithio'n agos gyda'r rhain dros y ddwy flynedd nesaf.

### Gwella cadernid a chynaliadwyedd lleol a rhanbarthol

- Lefel ymyrraeth ac amseroedd ymateb wedi'u gwella ar gyfer arolygon diogelwch y priffyrdd yn dilyn cymeradwyaeth i'n Polisi a Chynllun Arolygiadau Diogelwch y Priffyrdd.
- Mae gwelliannau sy'n cael ei gwneud i'n rhwydweithiau teithio yn dilyn dyfarniadau grant llwyddiannus o £649,000 ar gyfer 2022/23 gan gynnwys; gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer Pecyn Teithio Llesol Coridor Ffordd Yr Wyddgrug, llwybrau Canol y Dref ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.
- Cynnal lefel uchel o berfformiad wrth glirio tipio anghyfreithlon

- Fe wnaethom berfformio yn gyson dda o ran ailgylchu a chompostio, gan gwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru yn gyfforddus gan fod yn y chwartel uchaf ar draws Cymru.
- Fe gynhaliom lefelau perfformiad uchel o ran archwiliadau glanweithdra priffyrdd, yn y blynyddoedd mwyaf anodd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen gweithredol.
- Mae gennym ein Strategaeth Trawsnewid Fflyd drafft ac mae'r rhaglen adnewyddu wedi dechrau. Mae 10 o faniau ychwanegol wedi'u pweru gan fatri trydan wedi ymuno â'r fflyd yn 2021 a bydd ail gerbyd gwastraff wedi'i bweru gan fatri yn cael ei ychwanegu i'r fflyd ym mis Ebrill 2022.
- Rydym wedi cyflwyno Olew Llysiau Hydrogenaidd yn lle disel. Mae hynny'n golygu 80%-90% yn llai o allyriadau na cherbydau disel. Cyflwynwyd hyn ar gyfer ein fflyd cynnal a chadw yn ystod y gaeaf a rhai cerbydau cynnal a chadw priffyrdd.
- Rydym yn treialu cerbyd gwastraff trydan ar siasi Renault. Ni yw'r cyntaf yng Nghymru i dreialu'r math hwn o gerbyd. Rydym hefyd wedi cwblhau arddangosiad o gerbyd ôl trydan.
- Rydym wedi cydweithio â budd-ddeiliaid lleol i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol gyda Uchelgais Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.
- Mae effeithiau Newid Hinsawdd Posib wedi'u hadnabod o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu fel ein bod yn gallu lleihau ein heffaith ar gymunedau a gwella cadernid yn lleol.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o lefydd i dyfu cynnyrch o fewn ein cymunedau i wella sicrwydd bwyd a chynyddu cadernid.
- Rydym wedi plannu dros 10,000 o goed ar draws y Fwrdeistref Sirol.

## SUT FUON NI'N MESUR CYNNYDD:

** COMG yn adlewyrchu'r perfformiad terfynol ar ddiwedd oes Cynllun y Cyngor presennol.

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu a darparu ein Cynllun Teithio Llesol – llwybrau cerdded a beicio yn cysylltu cymunedau gyda chyfleusterau cyflogaeth ac addysg allweddol. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan bandemig Covid-19 | Datblygwyd y Polisi gan | Gweithredu'r cynllun | OREN | **Na** |
| 2 | **Gwella:** Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a ddaeth i'n sylw ac a gafodd eu clirio cyn pen 5 niwrnod gwaith | 91.4% | 100% | 93.7% | 94% | 97% GWYRDD | **Do** |
| 3 | **Cynnal:** Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. | Wrecsam 69.66% | 66.7% | 67.68% | 67% Targed Statudol | 66.19% GWYRDD | **Na** |
| 5 | **Gwella:** Lleihad yn y cyfanswm tunelledd wedi'i gyfuno o allyriadau carbon. | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cytuno ar dargedau CBS Wrecsam wrth symud ymlaen | Cynnydd o 27.7% ers 2020/21 (ffigwr blynyddol 2021/22, wedi'i ryddhau mewn ôl-ddyledion) | |
| 6 | **Gwella:** Canran o'n cynhyrchiant o ynni o ffynonellau adnewyddadwy o'n hasedau. | | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Wrexham CBC targets to be agreed moving forward | 4.9% (ffigwr blynyddol 2021/22, wedi'i ryddhau mewn ôl-ddyledion) | |
| 7 | **Gwella:**Canran o gerbydau trydan yn ein fflyd. | 6 o 350 | 0 Wedi'i effeithio gan Covid-19 | 11 | 15 o gerbydau newydd ychwanegol bob blwyddyn | 5 COCH | **Na** |

## PARHAU GYDA'N SIWRNAI I WELLA - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Ar y cyfan rydym wedi graddio'r blaenoriaeth hwn i'r cyngor fel oren, sy'n golygu bod cynnydd wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol ond ychydig o dystiolaeth sydd o welliant ar draws y mesuryddion perfformiad allweddol.

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd natur cyfyngedig dau o'n mesuryddion perfformio. Mae'r ddau fesuryddion perfformiad yn cynnwys lleihad yng nghyfanswm y tunelledd wedi'i gyfuno o allyriadau carbon a chanran ein cenhedlaeth o ynni o ffynonellau adnewyddadwy o'n hasedau. Mae angen datblygu'r ddau fesuryddion ymhellach i sefydlu targedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn deall ein sefyllfa yn well ac i fod yn fwy cadarn wrth fesur ein cynnydd. Mae'r casgliad hefyd yn seiliedig ar gynnydd arafach na'r disgwyl wrth geisio lleihau'r effaith carbon a ddaw o'n fflyd.

O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 newydd byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar yr Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru ac i fod yn fwy cadarn wrth gynllunio effeithiau newid hinsawdd. Bydd gweithredu ein Cynllun Datgarboneiddio yn datblygu ein ymrwymiad o fynd i'r afael â'r rhaglen Argyfwng yr Hinsawdd a Datgarboneiddio ymhellach. Trwy ein Cynllun Datgarboneiddio byddwn yn targedu gweithrediadau'r cyngor ac yn symud at gyflawni Allyriadau Carbon Sero Net erbyn 2030 ac yn hyrwyddo'r gwaith o amddiffyn a gwella ein amgylchedd naturiol.

Am ragor o wybodaeth ar sut i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaeth hwn darllenwch gyflwyniad o'r Cynllun y Cyngor 2023-28 arfaethedig newydd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.



# DATBLYGU'R ECONOMI

## SIWRNAI EIN CYNLLUN Y CYNGOR 2020-23

Roeddem yn cydnabod bod yr economi yn brif gymhelliant ar gyfer gwella cymuned Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae'n cyd-fynd yn agos â Nodau Lles Cymru. Gydag effaith ddigynsail pandemig Covid-19 ar iechyd y cyhoedd a'r economi, fe wnaethom ddatblygu Cynllun Adfer Canol Tref Wrecsam. Hefyd, dyma ni'n adolygu ein Blaenoriaeth Datblygu'r Economi. Roeddem yn teimlo bod ei fwriad cyffredinol yn dal yn ddilys fel fframwaith strategol craidd i ddarparu gwelliannau hirdymor i ganol tref Wrecsam a'r Bwrdeistref Sirol yn ehangach.

Dywedom y byddem dros y dair blynedd yn gwella dewisiadau teithio ar gyfer teithio mewn i Wrecsam, cyflawni twf mewn cyflogaeth a gwella'r cyflenwad o swyddi sy'n talu'n well. Roeddem hefyd eisiau cynyddu'r gydnabyddiaeth i Fwrdeistref Sirol Wrecsam fel lleoliad arwyddocaol i ymwelwyr yng Ngogledd Cymru a'r rhanbarth Mersi a'r Ddyfrdwy ehangach ar gyfer ein treftadaeth pêl-droed ac i gynyddu'r nifer o ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi creu effeithiau digynsail ar iechyd y cyhoedd a'r economi a bydd ei effaith i'w deimlo am amser i ddod. Mae camau gweithredu a gweithgareddau sydd wedi'u trefnu i'w cwblhau yn ystod 2021/22 wedi cael eu heffeithio ac mae cynnydd wedi cael ei effeithio oherwydd y blaenoriaethu ymateb i argyfwng. Mae newidiadau mewn personél ac oedi gyda'r Gofrestrfa Dir na chafodd ei ragweld wedi cael effaith ar gynnydd hefyd.

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud gyda datblygu'r economi ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod y cyfnod hwn ac mi fyddwn yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiant trwy ddatblygu ein cynlluniau a'n gweithgareddau. Er hyn, rydym wedi parhau i fod yn uchelgeisiol a chyffrous wrth symud ymlaen gyda'n cynlluniau ar gyfer gwella'r economi. Mae ein cynlluniau wedi achosi cynaliadwyedd, wrth i ni edrych i wneud gwelliannau parhaol ac arwyddocaol i'r economi ac isadeiledd er mwyn ei gefnogi yn y dyfodol.

** Yn ystod oes y cynllun mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus mewn sicrhau 'Statws Dinas', ac felly'r cyfeiriadau at hynny ym Mlaenoriaeth Cynllun y Cyngor ynghylch y gwaith rydym wedi'i gwblhau ac sy'n cyfeirio at ganol y dref.*

## YR HYN A DDYWEDOM Y BYDDEM YN EI WNEUD:

**Yr hyn a ddywedom y byddem yn ei wneud:**

- Creu gofod llawr ychwanegol (mewnol ac allanol) ar gyfer ateb gofynion cadw pellter cymdeithasol (ystyried caffael tir / newid pwrpas a hefyd cael caniatâd i ddefnyddwyr presennol) a chaniatáu, pan fo hynny'n bosib, mynediad i'r ardaloedd tu allan i fasnachu ar gyfer busnesau;
- Parhau i sicrhau a gwneud grantiau ariannol a benthyciadau ar gael i helpu busnesau a pherchnogion adeiladau;
- Cynnal parth cyhoeddus diogel a deniadol sy'n cyd-fynd â chadw pellter cymdeithasol; a
- Sicrhau a gweithredu prosiectau Teithio Llesol.

**Bargen Twf Gogledd Cymru**

- Fel aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gweithio gyda phartneriaid i gwblhau achos busnes manwl ar gyfer pob prosiect / rhaglen unigol a gymeradwywyd fel rhan o'r Cynnig Twf er mwyn sicrhau cyllid; a
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu prosiectau/ rhaglenni ar gyfer adeiladu isadeiledd digidol, tir ac eiddo, gwelliannau ynni a chyfleusterau ymchwil a datblygiad ar draws Gogledd Cymru.

### Creu prif gynllun ar gyfer canol tref Wrecsam llai gyda chymysgedd o fanwerthu, preswyl ac adloniant

- Gweithredu Strategaeth Creu Lleoedd newydd ar gyfer Canol Tref Wrecsam;
- Targedu adeiladau gwag a phroblemus yng nghanol tref Wrecsam ac aneddiadau allweddol eraill i wella deiliadaeth ac addasu'r rhain at ddibenion gwahanol er mwyn bodloni anghenion newidiol yr economi;
- Gweithredu menter Creu Lleoedd Canol Tref Wrecsam i gefnogi 'Bwriad Cyffredin' newydd ynghylch creu craidd o safon uchel i ganol y dref gan gynnwys cyflawni Cynllun Treftadaeth Treflun. Rhaglen Buddsoddi mewn Adfywio wedi'i Dargedu, Rhanbarth Gwella Busnes, Trawsnewid Trefi a phrosiect 'Tai Uwchben Eiddo Manwerthu'; a
- Datblygu prosiect Seilwaith Gwyrdd i wella amgylchedd gorfforol wrth wraidd canol tref Wrecsam, gan ategu ymddangosiad Ardal Farchnad.

### Gwneud y mwyaf o effaith economaidd pêl-droed ar y Fwrdeistref Sirol

- Ymgynghori a dechrau cyflawni Uwchgynllun Porth Wrecsam mewn partneriaeth â Chlwb Pêl-droed Wrecsam, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Llywodraeth Cymru, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru, i ddarparu cynllun adfywio defnydd cymysg mawr sydd wedi'i ganoli o amgylch y Cae Ras a'r Orsaf Gyffredinol; a
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i symud y gwaith o ddatblygu Amgueddfa Bêl-droed Cenedlaethol yn Wrecsam ymlaen.

### Hyrwyddo entrepreneuriaeth leol

- Cefnogi'r broses o gyflwyno Cronfa Fenthyg Entrepreneuraidd ac Arloesi
- Darparu Prosiect Mynediad Digidol newydd a chefnogi Goblygiad Gwasanaeth Gyffredinol i ddarparu isadeiledd digidol newydd yn y cymunedau a fydd yn gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau entrepreneuraidd; a
- Cyhoeddi Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygu twristiaeth yn Wrecsam gan gynnwys cyfleoedd yn ymestyn allan i Uwchgynllun Technegol Basn Trefor fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte.

### Sicrhau bod isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn bodloni anghenion ein heconomi

- Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau gwelliannau i gefnffordd yr A483;
- Sicrhau fod isadeiledd cefnogol yn cynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, dulliau o gludiant cyhoeddus a datrysiadau teithio llesol yn cael eu datblygu yn y rhyngwyneb gan wella'r A483, a fydd yn gwella llwybrau i ganol y dref, ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio;
- Sicrhau gwelliannau mewn cyfleusterau a gwasanaethau i orsafoedd rheilffordd Wrecsam - gan gynnwys gwella mynediad i bobl ag anableddau; a
- Chwblhau Astudiaeth Cludiant Ystâd Ddiwydiannol Wrecsm yn unol â phroses Arweiniad Cymeradwyo Cludiant Cymru.

### Gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

- Ymgysylltu â'r rhai sydd yn chwilio am waith ac yn darparu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth, yn arbennig pobl ifanc neu bobl ag anableddau a chodi ymwybyddiaeth am y bwlch cyflog i'r grŵp hwn.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL Y FLAENORIAETH DATBLYGU'R ECONOMI 2020-23

Ein Hymateb i Bandemig Covid-19:

- Llwyddiant ein Tîm Cefnogi Busnes, gwyro adnoddau i gefnogi gwaith ymateb ac adfer. Gweithio gyda busnesau a chwmnïau yn rhoi cyngor ac yn eu helpu i gael mynediad at gyllid y Llywodraeth i gefnogi eu busnesau.
- Sicrhaodd y Tîm Adfywio Ffisegol, £108,000 hefyd ar gyfer cynllun grantiau bychan i gefnogi busnesau lletygarwch yng nghanol y dref yn bennaf i addasu i ofynion cadw pellter cymdeithasol drwy ddefnyddio mannau awyr agored. Cafodd ei gynnig i setliadau eraill.
- Cafodd gwasanaethau wyneb yn wyneb eu symud i fod ar-lein neu dros y ffôn gan sicrhau fod cyfranogwyr yn derbyn gwasanaeth drwy gydol y cyfnod o gyfyngiadau.
- O ran y Cronfeydd Adfer Economaidd Covid-19 a dderbyniwyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam eleni, a weinyddir gan ein Tîm Busnes, talwyd cyfanswm o £4,505,000, wedi ei rannu rhwng 10 o wahanol grantiau.

### Cynllun Adfer Canol Tref Wrecsam

- Mae'r cyngor wedi rhoi cymorth i dros 24 o fusnesau yng nghanol y dref gyda dros £1m o gyllid grant gwella eiddo, a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhai a gafodd y cymorth yn amrywio o fanwerthwyr annibynnol i dai, caffis, bariau a bwytai.
- Dyma ni'n caffael safle'r Hippodrome sydd wedi bod yn wag a chyflawni Cam 1, a wnaeth yr ardal yn ddiogel a gosodwyd glaswellt ar gyfer defnydd achlysurol/anffurfiol, wnaeth gynnwys cynnal gweithgareddau Dinas Diwylliant.
- Aeth gwariant ymwelwyr â Wrecsam yn ôl i fyny i £101m ers effeithiau'r cyfnod clo yn 2020/21 pan welwyd gostyngiad i lawr at £49m, gydag adferiad disgwyliedig i barhau unwaith y bydd ffigurau 2022/23 yn cael eu cyhoeddi.
- Awgrymwyd gwaith fel rhan o brosiectau trefi Clyfar Llywodraeth Cymru gan osod mesuryddion ymwelwyr a synwyryddion eraill yng nghanol tref Wrecsam.
- Gweithiodd tîm digwyddiadau'r cyngor mewn partneriaeth i hwyluso ymweliad Brenin Siarl III ym mis Rhagfyr 2022, FOCUS Wales, Parthau Cefnogwyr Cwpan y Byd, sydd wedi dod â degau ar filoedd o bobl i ganol y dref.

### Bargen Twf Gogledd Cymru

- Trwy gymryd dull integredig i'n cynllunio, cafodd ein Cynllun Creu Lleoedd newydd ei gymeradwyo ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a'i ystyried am gymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2023.
- Yn ystod Cynllun y Cyngor 2020-23 mae'r cyngor wedi helpu dros 566 o bobl i ddod o hyd i waith.
- Yn ystod Cynllun y Cyngor 2020-23 mae'r cyngor wedi helpu dros 356 o bobl i fynd ar gyrsiau hyfforddiant, gyda 587* o gymwysterau yn cael eu hennill (*gall unigolion gyflawni mwy nac un cymhwyster)
- Yn ystod 2022/23 o'r 138 o geisiadau gwaith y gwnaeth 'Cymunedau am Waith a Mwy' eu helpu i'r byd gwaith, roedd gan 24.5% o'r unigolion anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith.
- Mae'r cyngor wedi cyflwyno ceisiadau cyllid cyfalaf i'r Bargen Dwf Gogledd Cymru i gefnogi datblygiadau strategol yn Wrecsam.

- Gwaith ar wella cysylltedd rhwydwaith symudol wedi dod yn ei flaen gan weithio gyda phartneriaid o Uchelgais Gogledd Cymru.

**Gwneud y mwyaf o effaith economaidd pêl-droed ar y Fwrdeistref Sirol**

- Drwy gydweithio, darparodd y cyngor ddau brosiect peilot Isadeiledd Gwyrdd yn cynnwys plannu coed er cof ar Sgwâr y Frenhines a phlannu coed ar Stryt Henblas y tu allan i rai o'r siopau.
- Rydym wedi symud y Ganolfan Wybodaeth i Ymwelwyr i adeilad newydd ar Stryt Caer, sy'n ychwanegu at yr adfywiad a'r buddsoddiad sy'n digwydd yn y rhan hon o ganol y dref.
- Sicrhau £5.4 miliwn mewn cyllid cyfalaf a £800,000 i sefydlu Amgueddfa Pêl-droed i Gymru.
- Cytundeb wedi'i sicrhau ar gyfer pecyn ariannu i adeiladu'r Eisteddle Kop newydd yn y Cae Ras a fydd yn cynyddu niferoedd ar y giât ac yn ei gwneud yn bosib i gynnal gemau rhyngwladol.

**Hyrwyddo entrepreneuriaeth leol**

- Wrth edrych ar y sefyllfa hirdymor, mae'r Adain Adfywio wedi sicrhau Cyllid Codi'r Gwastad ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd (£13.3miliwn), Cyllid Adfywio Cymunedol (£220,000 - gyda hanner yr arian i gefnogi ail-bwrpasu eiddo canol y dref).
- Sicrhau Statws Dinas fel un o 8 lleoliad yn y DU i gael ei ddyfarnu yng Nghystadleuaeth Jiwbilî Platinwm y Frenhines.
- Gorffen o fewn y pedwar olaf yn y gystadleuaeth Dinas Diwylliant 2025, er gwaethaf ymgeisio am y tro cyntaf.
- Ail-gyflwyno'r Fforymau Busnes, Rhwydwaith-360 a Sero-Net a hefyd wedi ail-ddechrau ymweliadau wyneb yn wyneb â busnesau yng nghanol y dref.
- Dechrau cyfnod dichonoldeb ar Ranbarth Gwelliant Busnes newydd.
- Wedi sicrhau dros £2m mewn cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ailwampio'r Marchnadoedd Dan Do erbyn diwedd 2023.

**Sicrhau bod isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn bodloni anghenion ein heconomi**

- Datblygu prosiect Porth Wrecsam yn golygu gwelliannau i Orsaf Cyffredinol Wrecsam.
- Datblygu Llwybrau Teithio Llesol allweddol yn cynnwys Ffordd yr Wyddgrug yng nghanol y dref ond hefyd llwybrau allweddol i, a thrwy Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.

## SUT WNAETHOM GEFNOGI CYDRADDOLDEB

Mae'r Tîm Cymunedau am Waith: yn cefnogi llwythi achos pobl lle mae cyfran uchel yn dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu ar waith. Mentoriaid Cyflogaeth wedi cefnogi grwpiau ac unigolion o Wcrain, Syria ac Afghanistan drwy ddarparu gweithgareddau'n ymwneud â gwaith ac iaith.

Hefyd, mae'r tîm yn gweithio gydag unigolion o Garchar Ei Mawrhydi Berwyn ar weithgaredd "trwy'r giât" gyda'r bwriad o gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad cynaliadwy iddyn nhw ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd wedi gweithio gyda amryw o grwpiau gan ddefnyddio deunyddiau i ymrwymo yn ddwyieithog drwy'r Gymraeg, Pwyleg, Portiwgaleg a Bwlgareg.

Mae'r Ymateb i Gostau Byw wedi gweld llawer o waith yn cael ei wneud gyda theuluoedd ac unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gostau bwyd a chyfleustodau, gydag asedau'r cyngor yn cael eu defnyddio fel Canolfannau Clyd, yn ogystal â chyllid yn cael ei weinyddu i ddatblygu canolfannau clyd ac i ddosbarthu bwyd.

## SUT FUON NI'N MESUR CYNNYDD:

*Amcanion Cydraddoldeb Strategol

** Mae COMG yn adlewyrchu'r perfformiad terfynol ar ddiwedd oes Cynllun y Cyngor presennol.

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Gwella:** £m o fuddsoddiad i Wrecsam | Bargen Twf - Cytundeb 'Penawdau'r Telerau' NEWYDD gwerth £240m. | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | £12 miliwn | £9.2 miliwn wedi cael ei neilltuo yn amodol ar gyflwyno cynllun busnes amlinellol<br>MELYN | Na |
| 2 | **Gwella:** Ail-bwrpasu 23 eiddo gwag yng nghanol y dref neu eu hail-ddefnyddio unwaith eto erbyn 2023. | Gwaelodlin NEWYDD (yn seiliedig ar fenthyciadau a phrosiect gorfodaeth newydd wnaeth ddechrau yn 2020) | 2 | 5 | 10 | 9 i gael ei hawlio unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio<br>MELYN | Na |
| 3 | **Cynnal/Adfer:** Cynnydd yng nghanran yr ymwelwyr i Fwrdeistref Sirol Wrecsam o un flwyddyn i'r llall | 2018 - 1.92m o ymwelwyr (+1.6% o gynnydd ar 2017)<br>2019 – 1.96m o ymwelwyr (+2.1% o gynnydd ar 2018)<br>(Data STEAM - Dull o fodelu effaith twristiaeth ar yr economi yw hwn) | 1.8%<br>2018-19 | | Cynnydd | Data disgwyliedig C1 (2023/24) | |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Cynnal/Adfer:** Nifer yr ymwelwyr i ganol tref Wrecsam | 6,393,118 | Asesiad chwarterol Chwarter 4 – 443,320 | Asesiad chwarterol Chwarter 4 - 1,110,459 | Cynnydd | 5,077,790 OREN | Na |
| 5a | **Cynnal/Adfer:** Canran y gyfradd o eiddo manwerthu gwag yng nghanol tref Wrecsam: a) holl eiddo manwerthu | 11.20% | 22.90% | 18.9% | Lleihau | Nid oes gwybodaeth ar gael | |
| 5b | **Cynnal/Adfer:** Canran y gyfradd o eiddo manwerthu gwag yng nghanol tref Wrecsam: a) eiddo manwerthu y mae'r cyngor yn berchen arnynt | 22% (5 o 22 eiddo) | 32% | 11 | Lleihau | Nid oes gwybodaeth ar gael | |
| 6 | **Cynnal/Adfer:** Canran yr eiddo masnachol sy'n cael eu meddiannu. | 80% | 83% | 87% | Cynnydd | 93% GWYRDD | Do |
| 7 | **Gwella:** £ y cyllid sector cyhoeddus a phreifat sydd wedi'i ymrwymo i ddarparu Uwchgynllun Porth Wrecsam erbyn 2023 | Prosiect newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | £34 miliwn | £33 miliwn MELYN | Na |
| 8 | **Gwella:** Buddsoddiad £ i ddatblygu Amgueddfa Bêl-droed ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. | Prosiect newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Cam 1 cais wedi'i gyflwyno Cyfanswm a Hawlir: £2,063,873 | £4 miliwn | £5.4m cyfalaf £70,000 refeniw GWYRDD | Do |
| 9 | **Gwella:** Nifer yr ymholiadau buddsoddi cymwys | 275 | Ddim yn cael ei adrodd | 336 | 250 | 166 COCH | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Cynnal/Adfer:** Nifer y busnesau a gofnodwyd (mesur dangosol gan Lywodraeth Cymru). | 383 | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | 308 | Cynnydd | Nid yw'n amser derbyn data gan Lywodraeth Cymru eto | |
| 11 | **Cynnal/Adfer:** Gwerth y gwariant gan ymwelwyr ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. | £125m | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | | Cynnydd | Disgwylir data Chwarter 1 2023/24 | |
| 12 | **Cynnal/Adfer:** Swyddi gros a grëwyd gyda chyfraniad uniongyrchol y cyngor. | 383 | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | | Sustain 300 per year | 405 GWYRDD | Do |
| 13 | **Gwella:** Ardal fwy o dir adeiladu tai wedi'i ryddhau ar gyfer datblygiad (hectar). | 67.42(hectar) wedi'i nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol | Adrodd ar ôl i gyffordd yr A483 gael ei chwblhau | Adrodd ar ôl i gyffordd yr A483 gael ei chwblhau | Adrodd ar ôl i gyffordd yr A483 gael ei chwblhau | CBSW heb fabwysiadu'r CDLl | Na |
| 14 | **Gwella:** Ardal fwy o dir economaidd wedi'i ryddhau ar gyfer datblygiad (hectar). | 4.7(hectar) wedi'i nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol | Adrodd ar ôl i gyffordd yr A483 gael ei chwblhau | Adrodd ar ôl i gyffordd yr A483 gael ei chwblhau | Adrodd ar ôl i gyffordd yr A483 gael ei chwblhau | CBSW heb fabwysiadu'r CDLl | Na |
| 15 | **Gwella:** Nifer y bobl / canran yn cael canlyniad llwyddiannus yn dilyn colli swydd. | Data Llywodraeth Cymru - Angen Gwaelodlin NEWYDD | 111 y flwyddyn | 15 o ganlyniadau swyddi ar gyfer y rhai a gollodd eu swyddi | Cynnydd | 11 OREN | Na |
| *16 | **Gwella:** Canran y rhai sy'n ymgeisio am waith drwy Cymunedau am Waith a Mwy yn unigolion ag anabledd neu gyflwr sy'n cyfyngu ar waith. | 16% (Mawrth 2020) | 9% | 25% | 20% | 24% GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *17 | **Gwella:** Nifer y sefydliadau ar yr Addunted Cyflogwyr. | 120 | 65 | 65 | Cynnydd | Mae'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig sydd wedi ariannu staff i gefnogi Addunted Cyflogwyr wedi dod i ben | |
| *18 | **Gwella:** Nifer / gwerth y Buddion Cymunedol a sicrhawyd drwy broses caffael y Cyngor yn ymwneud â lleihau anghydraddoldeb. | N/A | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Cynnydd | | Na |

## PARHAU GYDA'N SIWRNAI I WELLA - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Yn gyffredinol rydym wedi graddio blaenoriaeth y cyngor fel melyn sy'n golygu ein bod wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein canlyniadau, gyda thystiolaeth o welliant wedi'i arsylwi ar draws nifer o fesuryddion perfformiad allweddol.

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod cynnydd wedi cael ei wneud i ddatblygu'r economi ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod y cyfnod hwn, rydym mewn sefyllfa i allu parhau i adeiladu ar ein llwyddiant trwy ddatblygu ein cynlluniau a'n gweithgareddau. Mae'r economi dros y dair blynedd diweddaf wedi bod mewn cyflwr/sefyllfa lle na ellir ei ragweld pan fuon ni'n creu ein cynllun ac mae llawer o'n hamser a'n hadnoddau wedi cael eu dargyfeirio i ddarparu cymorth gwahanol/neu fwy mewn argyfwng i gynnal busnesau lleol. Mae hyder yn yr economi a'r farchnad eiddo yn dal i sadio gan olygu llai o bobl yn gofyn am gymorth ariannol tuag at weithgareddau'n ymwneud ag eiddo. Mae cyflawniadau i sicrhau Statws Dinas a chyrraedd y pedwar olaf ar gyfer Dinas Diwylliant 2025, ynghyd â'r cynnydd wrth ddatblygu ein Cynllun Creu Lleoedd, yn darparu llwyfan gadarn ar gyfer datblygiad economaidd o 2023 ymlaen.

O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 newydd byddwn yn parhau i weithio mewn cydweithrediad gyda nifer o bartneriaid ar draws ein cymunedau, yn y sector cyhoeddus a phreifat, er mwyn sicrhau buddsoddiad a hwb i'r economi. Trwy ein ymgysylltiad yn lleol ac chenedlaethol byddwn yn adeiladu ar economi mwy llewyrchus, cynaliadwy a chadarn yng Ngogledd Cymru trwy gyflawni Bargen Dwf Gogledd Cymru. I gyflawni ein Huchelgais Economaidd byddwn yn parhau i adeiladu ar ein cynnydd gwych trwy weithredu ein strategaeth Creu Lleoedd a sicrhau fod ein Isadeiledd Cludiant yn cwrdd ag anghenion yr economi, gyda gwell dewisiadau a rhai mwy cynaliadwy i deithio fel bod pobl yn gallu cael mynediad i wasanaethau a chefnogi Wrecsam fel cyrchfan ymwelwyr sylweddol.

Am ragor o wybodaeth ar sut i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaeth hwn darllenwch gyflwyniad o'r Cynllun y Cyngor 2023-28 arfaethedig newydd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# SICRHAU BOD PAWB YN DDIOGEL

## SIWRNAI EIN CYNLLUN Y CYNGOR 2020-23

Fe wnaethom gytuno bod teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn hanfodol i'n preswylwyr a'n hymwelwyr, ac mae'n ffactor allweddol sy'n cael effaith ar ansawdd bywydau pobl a'u gallu i ymgysylltu â bywyd yn y gymuned. Rydym wedi rhoi pwyslais ar ein cyfrifoldeb i fynd i'r afael â phroblemau cydraddoldeb ac wedi ymrwymo i gydweithio gyda'n partneriaid, yn enwedig y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn.

Yn ystod y dair blynedd ar gyfer ein Cynllun y Cyngor rydym wedi canolbwyntio ar y themâu canlynol: gwella diogelwch cymunedol, lleihau digartrefedd, buddsoddi mewn safonau a gwasanaethau tai a gwella safonau tai yn y sector breifat. Dywedom y byddem yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ein Cynllun Diogelwch Cymunedol, gweithredu ein Strategaeth Diogelu Corfforaethol a'n cynllun gweithredu a hyrwyddo a dathlu'r amrywiaeth ethnigrwydd yn ein cymunedau, gan sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys a'u croesawu.

Mae ein blaenoriaeth Sicrhau fod Pawb yn Ddiogel wedi gweld cyflawniadau da yn ystod y cyfnod hwn ond wedi wynebu heriau sylweddol yn sgil effeithiau Brexit a'r pandemig. Mae yna gynnydd hefyd wedi bod yn y galw am ystod o wasanaethau o ganlyniad i'r gwrthdaro yn Yr Wcráin. O ystyried yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu rydym wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan.

Yn ein Cynllun y Cyngor newydd byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd hwn i greu amodau sy'n cefnogi gallu pobl i ffynnu a chyflawni eu gwir botensial, waeth beth eu cefndir neu amgylchiadau; ac, i helpu greu Cymru mwy cyfartal a sicrhau bod canlyniadau positif yn cael eu gwireddu.

## YR HYN A DDYWEDOM Y BYDDEM YN EI WNEUD:

### Gwella Diogelwch Cymunedol

- Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r Cynllun Diogelwch Cymunedol, gan ganolbwyntio ar leihau'r niwed a achosir gan alcohol, amddiffyn y rhai mwyaf diamddiffyn a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel;
- Cefnogi pobl ddiamddiffyn i'w hatal rhag dod yn ddioddefwyr trosedd a dioddefwyr trosedd eildro;
- Datblygu ein harfer diogelu i ymateb i bolisïau a gweithdrefnau cenedlaethol newydd;
- Rhoi ein strategaeth gweithredu ar ddiogelu corfforaethol ar waith i gynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â dioddefwyr ecsbloetiaeth fel Llinellau Sirol, Caethwasiaeth Fodern a cham-drin domestig;
- Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ethnig ein cymunedau gan sicrhau eu bod yn gynhwysol a chroesawgar; ac
- Adnabod tystiolaeth newydd, ac sydd ar y gweill, all dynnu sylw at feysydd o bryder ychwanegol o ganlyniad i Covid-19.

### Lleihau Digartrefedd

- Darparu ein Strategaethau Digartrefedd a Chysgu Allan i gefnogi pobl sydd wedi colli eu llety ac i annog y rheiny sydd ddim yn ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi ar hyn o bryd i wneud hynny fel rhan o gamau ehangach i leihau cyffredinolrwydd digartrefedd, gan gynnwys gweithredu'r argymhellion yn yr Adroddiad Grŵp Gweithredu Digartrefedd;

- Cefnogi cynaliadwyedd tenantiaethau a lleihau'r risg o droi pobl allan drwy lansio Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol newydd, datblygu 'cefnogaeth cyn tenantiaeth' ac ehangu'r Asiantaeth Gosod Tai Lleol i gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael o ran tai i'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref; ac
- Gweithredu'r Grant Cymorth Tai newydd sy'n cyfuno grantiau a ddarparwyd yn flaenorol o dan Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru.

**Buddsoddi mewn Safonau a Gwasanaethau Tai**

- Cynyddu ein stoc dai gyda'n rhaglen barhaus o adeiladu a phrynu.
- Gwella safon ein stoc dai drwy gwblhau Safon Ansawdd Tai Cymru, gweithredu'r Safon Addas i'w Osod yn Lleol a diffinio manyleb y Cyngor ar gyfer tai carbon isel/sero carbon ar gyfer hen gynlluniau a chynlluniau newydd;
- Gwella effeithlonrwydd ac ymatebolrwydd ein Swyddfeydd Tai gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a dulliau modern o weithio; a
- Datblygu cyflenwad ac ansawdd ein tai gwarchod, a symud ymlaen gyda buddsoddiad trwy ein Rhaglen Ailwampio Tai Gwarchod.

**Gwella Safonau Tai'r Sector Preifat**

- Cefnogi landlordiaid preifat i wella safon a chynaliadwyedd llety drwy gymryd camau gweithredu cynllunio a gorfodaeth trwyddedu yn erbyn eiddo preswyl gwag neu sy'n cael eu rheoli neu eu cynnal yn wael yng nghanol y dref;
- Parhau i hyrwyddo a gorfodi'r Cynllun Trwyddedu Tai Amfeddiannaeth Ychwanegol yn Wrecsam.
- Gweithredu Prosiect Gorfodaeth Eiddo newydd o dan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru;
- Gweithio mewn partneriaeth â Rhentu Doeth Cymru i sicrhau bod landlordiaid ac asiantaethau gosod tai yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru; a
- Gwell ansawdd bywyd i denantiaid yn y sector rhentu preifat a chymunedau cymdogol, drwy gyflawni o leiaf un arolwg blynyddol o'r holl Dai Amlfeddiannaeth trwyddedig a chynnal ymateb rhagweithiol i orfodi deddfwriaeth safonau tai.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL AR GYFER Y FLAENORIAETH SICRHAU FOD PAWB YN DDIOGEL 2020-23

**Gwella Diogelwch Cymunedol:**

- Cydweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i ddarparu'r rhaglen 'Profi Olrhain Diogelu', gan hwyluso'r drefn o olrhain cysylltiadau gyda thimau lleol o swyddogion olrhain yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Cynnal ymgysylltiad cyhoeddus eang ac wedi'i dargedu i annog pobl i gael y brechiad Covid-19, yn cynnwys ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd a diamddiffyn megis y gymuned o bobl sy'n cysgu ar y stryd.
- Cynyddodd y tîm Cydlyniant Cymunedol eu hymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol ar ôl i gyfyngiadau Covid-19 ddod i ben.
- Mewn cydweithrediad â'n partneriaid, gan gynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd,

Heddlu Gogledd Cymru a sefydliadau'r trydydd sector, sicrhawyd cyllid Strydoedd Mwy Diogel 3 a Diogelwch Merched fin nos y Swyddfa Gartref.

- Hyfforddiant 'Operation Repeat' (atal pobl ddiamddiffyn rhag bod yn ddioddefwyr / dioddefwyr eildro ar stepen y drws) wedi ail-ddechrau yn 2022 ar ôl cael ei ohirio yn ystod pandemig Covid-19 a llwyddwyd i gynnig rhaglen llawn o hyfforddiant.
- Gweithredwyd y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol a lansiwyd y Protocol Niwed o Fewn y Teulu, gan helpu i amddiffyn pobl rhag Caethwasiaeth Fodern, Llinellau Sirol a mathau eraill o gamfanteisio.
- Cafodd Canolbwynt Amlddiwylliannol Wrecsam ei lansio, i gefnogi ymrwymiad cymunedol llawer gwell.
- Mae'r nifer o asiantaethau sy'n gwneud atgyfeiriadau priodol at y Grŵp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn sydd mewn Perygl (VARM) wedi cynyddu, gan adlewyrchu ar y gwell ymwybyddiaeth, a hyder yn y broses VARM; a'r nifer o achosion VARM gan arwain at ganlyniadau llwyddiannus sydd hefyd wedi cynyddu.

**Lleihau Digartrefedd:**

- Yn ystod pandemig Covid-19 diogelwyd pobl sy'n ddigartref neu'n cysgu ar y stryd drwy ddarparu llety i'r bobl diamddiffyn hynny ar y stryd, gyda'r gwaith heriol hwn yn parhau ar ôl y pandemig.
- Cynnal nifer isel o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn gyson gyda gostyngiad o dri i ddau ym mlwyddyn olaf y cynllun.
- Er mwyn blaenoriaethu'r diamddiffyn, ehangodd yr Asiantaeth Gosod Tai Lleol, gan helpu i sicrhau cartrefi, gan gynnwys i'r bobl oedd yn ffoi gwledydd mewn rhyfel megis Syria, Afghanistan ac Wcrain.
- Er i'r cyfyngiadau ar droi tenantiaid allan a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid-19 gael eu codi yn 2022, a'r pwysau sylweddol oherwydd yr argyfwng costau byw, mae'r nifer o achosion o droi tenantiaid allan o stoc y cyngor wedi aros yn sefydlog a heb gynyddu yn 2022/23 o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol.
- Lansiwyd y Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol i helpu gefnogi tenantiaethau cynaliadwy ac atal digartrefedd.
- Gweithredwyd y Rhaglen Grant Cymorth Tai, gan ddod â thri ffrwd ariannol Llywodraeth Cymru ynghyd (Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru) i gomisiynu ac i wasanaethau all atal pobl rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa da, neu o bosib helpu pobl digartref i gadw ac i ddod o hyd i lety.

**Buddsoddi mewn Safonau a Gwasanaethau Tai:**

- Fe lwyddom i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru yn Awst 2021, pedwar mis cyn y dyddiad terfyn estynedig ym mis Rhagfyr a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Wrth edrych ar yr hirdymor, mae Stoc Dai'r Cyngor wedi cynyddu ar ôl adeiladu tri ar ddeg o dai newydd ym Mhlas Madoc.
- Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i effeithiolrwydd ac ymatebolrwydd ein Swyddfa Ystadau, gan wneud y defnydd gorau o dechnoleg a ffurf modern o weithio, gan gynnwys datblygu system reoli dai newydd, i wella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i denantiaid.

- Mae'r cynnydd gydag adnewyddu cynlluniau tai gwarchod i wella safonau a chyflenwad unedau gwarchod yn parhau. Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu cynllun gwarchod Tir y Capel, i gynnwys darparu 4 uned newydd, yn 2022/23 a lansiwyd y cynllun adnewyddu ar 1 Mawrth 2023.

**Gwella Safonau Tai'r Sector Preifat:**

- Cynnydd yn y nifer o Dai Amlfeddiannaeth wedi eu trwyddedu, sy'n awgrymu fod y safonau ansawdd sydd eu hangen ar gyfer trwyddedu wedi eu cwrdd ar gyfer yr eiddo hyn.
- Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu dyrannu i waith Safonau Tai gan gynnwys archwiliadau eiddo blynyddol, gan alluogi i nifer fwy o ymyriadau i gael eu gwneud i fynd i'r afael â pheryglon.
- Mae nifer cynyddol o ymyriadau wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r tywydd oer eithafol ac i helpu gyda thlodi tanwydd.
- Mae nifer cynyddol o eiddo rhentu sector preifat yn cydymffurfio â'r safon effeithiolrwydd ynni isafswm (Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) band E neu uwch), gyda 87.4% o eiddo wedi'u cofrestru yn cydymffurfio â'r safon yn Chwarter 4 2022/23.

## SUT WNAETHOM GEFNOGI CYDRADDOLDEB

Drwy ein blaenoriaeth, rydym wedi ymrwymo i gefnogi cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol, a chyfrannu'n benodol at ein hamcan yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, "Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ethnig ein cymunedau, gan sicrhau eu bod yn gynhwysol a chroesawgar."

Rydym wedi gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid strategol i ddatblygu ymrwymiad positif a chynaliadwy gyda chymunedau amrywiol a sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac rydym wedi sicrhau cyllid o sawl ffynhonnell gan gynnwys Cerrig Camu 4 (SS$), y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Rhanbarthol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau sylweddol mewn ymrwymiad cymunedol trwy ystod o fentrau.

Mae'r rhain yn cynnwys Strydoedd Mwy Diogel, Dyfodol Gogledd Ddwyrain Cymru, Fforwm Rhyg-Ffydd, Sgyrsiau Cymunedol a lansio Canolfan Aml-Ddiwylliant Wrecsam yn Tŷ Pawb.

Mae ein Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol yn gweithio gydag amryw o grwpiau cymunedol yn cynnwys grwpiau cymunedol lleol, grwpiau cymunedol Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrif Ethnig, a grwpiau yn cynrychioli pobl LHDTC+ a phobl ag anableddau i fynd i'r afael â thensiynau yn y gymuned ac i hyrwyddo ymrwymiad cymunedol positif i bawb.

## SUT FUON NI'N MESUR CYNNYDD:

*Amcanion Cydraddoldeb Strategol

** Mae COMG yn adlewyrchu'r perfformiad terfyNal ar ddiwedd oes Cynllun y Cyngor presenNal.

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyhoeddi a gweithredu'r Cynllun Diogelwch Cymunedol (2020-23) - gweithio gyda phartneriaid i leihau'r niwed a achosir gan alcohol, amddiffyn y rhai mwyaf diamddiffyn a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel; | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Gweithredu'r Cynllun | Cwblhawyd GWYRDD | Do |
| 2 | Darparu a gwerthuso hyfforddiant Operation Repeat (cefnogaeth i bobl ddiamddiffyn i'w hatal rhag dod yn ddioddefwyr, ac yn ddioddefwyr fwy nag unwaith o drosedd carreg y drws) | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | 5 | Adrodd | GWYRDD | Do |
| 3 | Datblygu ein harfer diogelu i ymateb i bolisïau a gweithdrefnau cenedlaethol newydd a gweithredu ein cynllun diogelu corfforaethol i wella ymwybyddiaeth o ddioddefwyr o gam-fanteisio (megis Llinellau Sirol a Chaethwasiaeth Fodern). | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Gweithredu'r Cynllun | Cwblhawyd GWYRDD | Do |
| 4 | Darparu ein Strategaeth Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd a gweithredu argymhellion adroddiad y Grŵp Gweithredu Tai ac unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i bobl sy'n cysgu ar y stryd oherwydd Covid-19. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Gweithredu argymhellion | Cwblhawyd GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *5 | Cefnogi cynaliadwyedd tenantiaethau a lleihau'r risg o droi pobl allan drwy lansio Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol newydd, datblygu 'cefnogaeth cyn tenantiaeth' trwy hyfforddiant Parod i Rentu; ehangu'r Asiantaeth Gosod Tai Lleol i gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael o ran tai i'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Ddim yn cael ei adrodd | | |
| *6 | Gweithredu'r Grant Cymorth Tai newydd sy'n cyfuno grantiau a ddarparwyd yn flaenorol o dan Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Mabwysiadu'r Strategaeth | Gweithredu | Cwblhawyd GWYRDD | Do |
| 7 | Cynyddu ein stoc dai gyda'n cynlluniau tai newydd a'n dulliau caffael, a rhaglen ddatblygu barhaus. | Carreg Filltir | 5 | 5 | Parhau gyda'r gwaith gweithredu | 13 o Adeiladau Newydd, 2 Eiddo Prynu'n Ôl GWYRDD | Do |
| 8 | Gwella safon ein stoc dai drwy gwblhau Safon Ansawdd Tai Cymru, cyfnod cynnal a chadw, gweithredu'r Safon Addas i'w Osod yn Lleol a diffinio manyleb y Cyngor ar gyfer tai carbon isel/sero carbon ar gyfer hen gynlluniau a chynlluniau newydd yn y dyfodol. | Carreg Filltir | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Adrodd | GWYRDD | Do |
| 9 | Gwella effeithlonrwydd ac ymatebolrwydd ein Swyddfeydd Ystadau gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a dulliau modern o weithio. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Gwelliannau wedi'u cwblhau | Cwblhawyd GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Datblygu'r safon a'r cyflenwad o dai gwarchod gan weithredu'r hyn a ddysgwyd o Blas Madoc. Ailfodelu ac Ailwampio ein Rhaglen Adnewyddu Tai Gwarchod | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Gwaith wedi'i ohirio | Cynnydd gyda'r rhaglen. 2 allan o 22 o'r cynlluniau wedi'u cwblhau a gwaith wedi dechrau ar y 2 arall. | MELYN | Na |
| 11 | Cwblhau'r Rhaglen Datblygu Cynlluniedig flynyddol i ddyrannu Cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth tai fforddiadwy a chwblhau'r gwaith o fonitro cyfraniadau tai fforddiadwy a ddiogelwyd drwy'r Cytundebau Adran 106. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ddim ar y Trywydd lawn | Activity ongoing | Targed gweithgaredd parhaus wedi'i gyflawni, fodd bynnag mae oedi gyda'r gweithredu oherwydd problem ffosfforws COCH | Do |
| *12 | Sefydlu prosesau adrodd yn ôl a chydweithio newydd a gwella'r rhai presennol i fynd i'r afael a chyfeirio at densiynau cymunedol yn y gymdogaeth (er enghraifft Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a throseddau casineb eraill). Rhannwch y wybodaeth mewn grŵp Monitro Trosedd Casineb Tactegol a Thensiwn Cymunedol. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *13 | Mapio ble mae dinasyddion yr UE a chymunedau BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) eraill yn byw a pha sefydliadau llawr gwlad sy'n eu cefnogi (ymgysylltu â'r trydydd sector a phartneriaid i wneud hyn). | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *14 | Gweithio gyda phartneriaid allweddol i edrych ar sut y mae rhaglenni sy'n bodoli'n barod a rhai newydd yn dod yn fwy cynhwysol i bawb. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *15 | Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb mewn ysgolion i reolwyr, gweithlu a disgyblion. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *16 | Cyfrannu at gynllun ymgysylltu cyhoeddus a datblygu ymgynghoriad ystyrlon gyda'n cymunedau ar eu safbwyntiau ar ddiogelwch yn y Fwrdeistref Sirol. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| 17 | Sefydlu dewis o gyfleoedd ESOL i oresgyn rhwystrau i ddysgu a gwella darpariaeth bresennol, gan gynnwys cyfleoedd anffurfiol i ymarfer Saesneg. | Carreg Filltir | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Adrodd | GWYRDD | Do |
| 18a | **Gwella:** Canran y bobl yn adrodd eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd: a) yng Nghanol Tref Wrecsam | 34.61% | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Arolwg wedi'i ail-drefnu ar gyfer 2022/23 | Cynnydd | Cam gweithredu wedi'i ddiwygio i osgoi dyblygu arolygon. Disgwylir arolwg 2023/24 MELYN | Na |
| 18b | **Gwella:** Canran y bobl yn adrodd eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd: a) yn eu hardal leol | 71.42% | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Arolwg wedi'i ail-drefnu ar gyfer 2022/23 | Cynnal | Cam gweithredu wedi'i ddiwygio i osgoi dyblygu arolygon. Disgwylir arolwg 2023/24 MELYN | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Gwella:** Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n cael hyfforddiant 'Operation Repeat'. | 56 | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Ar ôl i gyfyngiadau Covid-19 ddod i ben mae hyfforddiant wedi ailddechrau. | Cynnydd | 121 GWYRDD | Do |
| 20 | **Gwella:** Nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio at y Grŵp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn sydd mewn Perygl | 21 | 24 | 21 | Cynnydd | 30 GWYRDD | Do |
| 21 | **Gwella:** Nifer yr achosion sy'n cael eu datrys yn llwyddiannus yn y Grŵp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn sydd mewn Perygl. | 13 | 33 | 24 | Cynnydd | 25 GWYRDD | Do |
| 22 | **Gwella:** Mwy o adrodd am bryderon am Gaethwasiaeth Fodern | 34 | Ar y trywydd iawn | 30 | Cynnydd | 34 GWYRDD | Do |
| 23 | **Gwella:** Llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol tref Wrecsam. | 919 | 751 | 729 | Gostyngiad | 639 GWYRDD | Do |
| 24 | **Cynnal/Adfer:** Mwy o gwsmeriaid yng nghanol y dref. | 6,393,118 | Asesiad chwarterol Chwarter 4 - 443,320 | Asesiad chwarterol Chwarter 4 - 1,110,459 | Cynnydd | 5,077,790 OREN | Na |
| 25 | **Gwella:** Nifer o bobl yn cysgu ar y stryd yn Wrecsam. | 21 | 3 | 2 | Lleihau | 2 GWYRDD | Do |
| 26 | **Gwella:** Nifer o denantiaid yn cael eu troi allan o eiddo'r cyngor. | 36 | 0 | 9 | Lleihau | 36 MELYN | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Gwella:** Nifer yr eiddo a ychwanegir at stoc tai'r cyngor drwy'r rhaglen adeiladu a phrynu. | 15 | 7 | 17 | | 16<br>MELYN | Na |
| 28 | **Gwella:**Nifer o atgyweiriadau ymatebol i dai'r cyngor. | 22,629 | 15,014 | 19,472 | Gostyngiad | 24,487<br>COCH | Na |
| 29 | **Gwella:** Creu mwy o unedau newydd fforddiadwy drwy'r Rhaglen Datblygu Cynlluniedig ac Adran 106 sy'n cael eu cwblhau. | 14 | 28 | | Cynnydd | 32<br>(Problemau ffosfforws Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gael effaith ar ddatblygu adeiladau newydd)<br>OREN | Do |
| 30 | **Gwella:** Nifer o Dai Amlfeddiannaeth sydd wedi eu trwyddedu | 263 at 31/3/20 | 254 at 31/3/21<br>Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cynnydd | 198<br>Cyflawnwyd y targed o ran safonau trwyddedu yn cael eu cynnal<br>GWYRDD | Do |
| 31 | **Gwella:** Cynyddu'r nifer o ymyraethau gydag eiddo rhent yn y sector breifat (a) i fynd i'r afael â pheryglon (peryglon fel y diffinnir yng nghanllaw gweithredu'r Ddeddf Dai 2004) (b) i fynd i'r afael â phan mae hi'n rhy oer ac/neu dlodi tanwydd. | 141 | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cynnydd | 257<br>GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Gwella:** Cynyddu'r nifer o ymyraethau gydag eiddo rhent yn y sector breifat (a) i fynd i'r afael â pheryglon (peryglon fel y diffinnir yng nghanllaw gweithredu'r Ddeddf Dai 2004) (b) i fynd i'r afael â phan mae hi'n rhy oer ac/neu dlodi tanwydd. | 224 o dan epc band E (19/06/2020) | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cynyddu'r nifer o PRPs sy'n cydymffurfio | 6641 GWYRDD | Do |
| 33 | **Gwella:** Canran yr asesiadau gofal cymdeithasol plant a gwblhawyd oedd yn ailasesiad o fewn 12 mis. | | 35.91% | 52.37% | Lleihau (a fyddai'n gweld cynnydd mewn canran) | 50.45% COCH | Na |
| 34 | **Gwella:** Llai o blant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant oedd wedi cael eu cofrestru'n flaenorol gan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol. | 5.6% Cyfartaledd cenedlaethol 5.1% (2018/19) | 3.67% | 0.76% | Is na chyfartaledd Cymru | 6.84% COCH | Na |
| *35 | **Gwella:** Trefnu nifer o ddigwyddiadau / gweithgareddau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru i hyrwyddo integreiddio rhwng grwpiau ac i helpu ddatblygu a chynnal perthnasoedd cymunedol da. | 1 (digwyddiad trosedd casineb | Cyfanswm o 39 sesiwn | Cyfanswm o 48 sesiwn | Cynnal | Cyfanswm o 58 sesiwn GWYRDD | Do |
| *36 | **Cynnal:** Canran y plant oedran ysgol sydd ar y Cynllun Ailsefydlu Unigolion Diamddiffyn sy'n mynychu addysg llawn amser priodol. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% GWYRDD | Do |
| *37 | **Gwella:** Nifer o ffoaduriaid Cynllun Ailsefydlu Unigolion Diamddiffyn yn cael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu addysg (ar wahân i ESOL). | 12% | 53% | 43% | Gwella | 60% GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *38 | **Gwella:** Nifer y troseddau casineb sy'n cael eu riportio | 180 Data Gwaelodlin Heddlu Gogledd Cymru | 195 | 311 | Lleihau | 293 GWYRDD | Do |
| *39 | Hyder a bodlonrwydd dioddefwyr (troseddau casineb) | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Adrodd | Data ddim ar gael am nad ydyw yn y parth cyhoeddus. | |

## PARHAU GYDA'N TAITH O WELLA - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Yn gyffredinol rydym wedi graddio'r flaenoriaeth y cyngor fel melyn sy'n golygu ein bod wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein cerrig milltir, gyda thystiolaeth o welliant wedi'i arsylwi ar draws nifer o fesuryddion perfformiad allweddol.

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod y mwyafrif o'r cerrig milltir, targedau a chanlyniadau perfformio a ragwelir ar gyfer y flaenoriaeth wedi cael eu cynnal; er hynny mae nifer fechan o fesurau heb gynnal eu targedau disgwyliedig. Mewn rhai achosion roedd hynny oherwydd ffactorau na ellir eu rhagweld ar ddechrau Cynllun y Cyngor 2020-23, er enghraifft cyfyngiadau cynllunio yn codi o dargedau ffosffad Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael effaith ar ddarparu tai fforddiadwy.

O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 byddwn yn parhau gyda'n siwrnai i Sicrhau fod Wrecsam yn le Teg a Diogel. Rydym eisiau amddiffyn y mwyaf diamddiffyn ac eisiau sicrhau fod ein cymunedau yn teimlo'n ddiogel gyda gwell cefnogaeth i ddioddefwyr troseddwyr. Byddwn yn gwneud yn siŵr fod mwy o bobl yn cael eu diogelu ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ac argaeledd ar lwybrau adrodd. Bydd ein cynlluniau yn sicrhau fod ein holl gymunedau a phobl gyda mynediad i wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau digidol a bod tenantiaid y cyngor yn gallu cael mynediad i dai a thai gwarchod o safon uchel wedi'u cefnogi gan wasanaethau modern, effeithlon ac ymatebol. Byddwn yn parhau i symud ymlaen i sicrhau fod ein cymunedau yn groesawgar, ac yn hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau.

Am ragor o wybodaeth ar sut i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaeth hwn darllenwch gyflwyniad o'r Cynllun y Cyngor 2023-28 arfaethedig newydd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# SICRHAU CYNGOR MODERN A CHRYF

## SIWRNAI EIN CYNLLUN Y CYNGOR 2020-23

Ar ddechrau Cynllun y Cyngor 2020 sefydlwyd y Flaenoriaeth Sicrhau Cyngor Modern a Chryf i ddechrau taith o welliant tuag at nod hirdymor o wneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy. Dyma ni'n sefydlu ein rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio, a thrwy ein Cynllun y Cyngor, yn gwneud addewid i drawsnewid ein arferion gwaith drwy herio ein diwylliant waith, darparu amgylchedd waith gwell a mabwysiadu datrysiadau technoleg a digidol newydd. Cytunom i ddarparu Strategaeth Ddigidol a TGCh newydd ac adolygu ein Strategaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. O fewn ein cynlluniau, rydym wedi parhau i ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'r mwyafrif o'n meysydd ffocws o fewn y flaenoriaeth, wedi'i symud ymlaen gyda'r angen i addasu yn gyflym i heriau digynsail a gyflwynwyd gan bandemig Covid-19. Rydym wedi cyflymu'r gwaith i drawsnewid ein harferion gwaith drwy gyflwyno prosesau ar-lein newydd i gwsmeriaid, gwella ein hamgylchedd waith, addasu i dechnoleg newydd a herio ein diwylliant i gyflwyno ffyrdd mwy modern o weithio; ac ar y ffordd rydym wedi dod ar draws rhai heriau, fel oedi gyda'n cynlluniau i wella ein meddalwedd adrodd fel ein bod yn gallu adrodd ar ymgeiswyr am swyddi gyda nodweddion gwarchodedig.

Er gwaetha'r heriau, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio i greu cyngor mwy modern a chryf sy'n gallu ymateb i ofynion cymdeithasol newidiol.

## YR HYN A DDYWEDOM Y BYDDEM YN EI WNEUD:

- Cyflawni nodau ein Rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio, gan sicrhau fod y nodau hyn yn cefnogi gwytnwch ein gweithlu, aelodau etholedig a gwasanaethau'r cyngor wrth ymateb i bandemig Covid-19 a'r gwaith adfer, ac yn helpu i leihau ein hôl troed carbon;
- Parhau i adolygu ein gofynion gofod swyddfa, sicrhau bod ein hasedau yn ateb y gofynion a darparu gofod swyddfa modern a hyblyg sy'n bodloni gofynion sefydliad modern;
- Gweithredu ein strategaeth TGCh a Digidol a fydd yn ein galluogi i foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid;
- Sicrhau fod ein gwasanaethau'n gynaliadwy a bod ein hadnoddau yn alinio gyda'n blaenoriaethau i'n galluogi ni weithredu mewn modd modern er mwyn addasu a newid wrth i ni gefnogi'r gwaith adferiad ar ôl pandemig Covid-19;
- Parhau i ddarparu ar flaenoriaethau Strategaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ac adolygu'r strategaeth ar gyfer 2022 ymlaen gan alinio â'r Cynllun y Cyngor newydd;
- Arwain, a sicrhau datblygiad yr iaith Gymraeg yn ein sefydliad;
- Buddsoddi yn ein hisadeiledd TGCh a chwblhau cyflenwi canolfan ddata newydd a safleoedd adfer mewn trychineb;
- Gwella hygyrchedd y Cyngor;
- Cynnwys pawb a sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth am y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys

y rhai â nodweddion gwarchodedig, i wneud penderfyniadau da;

- Cefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth leol; a
- Gwella amrywiaeth ac adnabod/mynd i'r afael â bylchau cyflog yng ngweithlu'r Cyngor.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL AR GYFER SICRHAU'R FLAENORIAETH MODERN A CHRYF 2020-23

### Adolygiad Gofod Swyddfa/Ffyrdd Modern o Weithio

- Rydym wedi cyflwyno ein Rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio ar draws y cyngor ac mae'n trawsnewid ein harferion gwaith drwy ddarparu amgylcheddau gwaith gwell, mabwysiadu atebion technoleg a digidol newydd, gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor a gwella ymrwymiad positif gyda'r gweithlu.
- Gwelliant parhaus i amgylchedd waith y cyngor trwy roi'r Adolygiad Gofod Swyddfa y cyngor ar waith.
- Ailwampio Adeiladau'r Goron i gyd-fynd â ffyrdd modern o weithio'r cyngor, a galluogi gweithwyr i weithio mewn ffordd mwy hyblyg sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad y cyngor ar gyfer yr uchelgais Sero Net, gan drawsnewid cyfleuster o'r 1960au sy'n hen ac yn aneffeithiol yn swyddfa fodern sy'n lleihau'r pwysau ar ynni a gwastraff.
- Cafodd prosiect Adeiladau'r Goron ei gyhoeddi fel enillydd gwobr 'Ystadau Cymru' Llywodraeth Cymru yn benodol o ran cynaliadwyedd amgylcheddol, yn ogystal â derbyn y wobr 'Enillydd Terfynol.'
- Yn dilyn ymlaen o waith ailwampio Adeiladau'r Goron, mae'r cyngor wedi ailwampio swyddfeydd Stryt y Lampint yn llwyddiannus ac wedi symud swyddfa 'Galw Wrecsam' i Lyfrgell Wrecsam. Mae'r lleoliad newydd yn rhoi mynediad i ddyfeisiadau tabled neu liniadur i fynd ar-lein, yn ogystal â derbynfa a gofod i gynnal cyfweliadau

### Gwella Gwasanaethau ac Isadeiledd Digidol a TGCh:

- Mae cyflawni'r Strategaeth TGCh a Digidol wedi rhoi fframwaith gefnogol i alluogi gwasanaethau TGCh a Digidol i gyflawni prosiectau sylweddol gyda'r nod i foderneiddio'r gwasanaethau a'r ffyrdd y mae dinasyddion Wrecsam yn cyfathrebu â'r cyngor.
- Mae'r Strategaeth TGCh a Digidol presennol wedi darparu sylfaen ar gyfer strategaeth newydd sydd wedi'i ddiweddaru i ddatblygu ein gweledigaeth i fabwysiadu a defnyddio technolegau newydd, a rhai sydd ar y gweill, wrth gynnal ymrwymiad y cyngor i gynhwysiant digidol.
- Mae gwaith yn parhau i gryfhau ein sefyllfa o ran seiberddiogelwch gan gynnwys adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau i gwrdd ag anghenion achrediadau seiber pellach.
- Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi defnyddio atebion technoleg arloesol o fewn y diwydiant i gynnig gwell amddiffyniad i'r cyngor a'n cwsmeriaid sy'n defnyddio ein gwasanaethau digidol.
- Rydym wedi ymrwymo'n barhaus i wella ein cynnig o ran system teleffoni a'n hatebion ar gyfer adrodd yn ddigidol gan gynnwys cyflwyno Microsoft Teams i ddyfeisiadau symudol.

### Hygyrchedd gwasanaethau:

- Mae cwsmeriaid wedi parhau i ddefnyddio ein system FyNghyfrif ar-lein i gael mynediad i wasanaethau'r cyngor yn cynnwys yn ystod y pandemig. Yn ystod y pandemig dyma ni'n ychwanegu ein darpariaeth ar-lein ar frys, a gwelwyd cynnydd o 40% yn nifer y ceisiadau am wasanaeth a wnaed trwy ein gwefan.
- Mae canran y cwsmeriaid sy'n teimlo ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor wedi aros yn uwch na'r targed cytunedig o 90% ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'n gwybodaeth ar-lein o ran fformat sy'n hygyrch, mae ein sgorau hygyrchedd o ran cynnwys ein gwefan wedi aros yn uchel iawn.
- Mae'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid bellach yn dewis cysylltu â'r cyngor ar-lein ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw.
- Ar hyn o bryd mae 80% o adroddiadau i swyddogaeth FyNghyfrif y cwsmer yn cael eu gwneud trwy hunan wasanaeth.
- Mae ein rhaglen drawsnewid digidol wedi gosod cwsmeriaid wrth wraidd ail ddylunio digidol i sicrhau fod mynd ar-lein yn opsiwn o ddewis. Mae ein prosiectau presennol yn canolbwyntio ar fodiwl archebu i gwsmeriaid allu archebu a thalu am ystod o wasanaethau a phorth gwasanaethau gofal cymdeithasol a rennir.
- Mae yna rŵan dros 120 o brosesau ar-lein sy'n galluogi cwsmeriaid i ddefnyddio'r swyddogaeth hunan wasanaeth ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw.
- Gan adnabod nad ydi'n bosib i bob cwsmer gael mynediad i'r rhyngrwyd, mae amryw o fentrau yn cael eu gweithredu ar draws Gwasanaethau i Gwsmeriaid, y Canolbwynt Lles a gwasanaethau mewnol fel Tai a Gofal Cymdeithasol i sicrhau cynhwysiad digidol.
- Mae prosiectau yn cynnwys cymorth ar-lein yn 'Galw Wrecsam' a phartneriaeth gyda chronfa ddata'r sefydliad Good Things Foundation sy'n darparu data i'r rheiny sydd methu ei fforddio.
- Mae adrodd ar ddata wedi gwella ar draws nifer o feysydd yn cynnwys y we, gwasanaeth ffôn, adroddiadau maes gwasanaeth a chwynion corfforaethol wedi ein galluogi i ddadansoddi siwrnai'r cwsmer yn well ac mae'r mewnwelediad hwn yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu meysydd ar gyfer ail ddylunio digidol yn y dyfodol.
- Fel awdurdod lleol Cymraeg balch rydym wedi parhau i wella ein darpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog, a heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried hyn ar ddechrau unrhyw brosiect newydd neu wrth gynllunio i ddarparu gwasanaeth.

### Ymgysylltu ac ymgynghori

- Trwy ymrwymo a chynnwys ein defnyddwyr gwasanaeth, eleni rydym wedi parhau i weld cynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau gwasanaethau ar-lein yn unol â'r cynnydd parhaus yn y nifer o wasanaethau sydd ar gael ar y platfform digidol.
- Yn ystod oes Cynllun y Cyngor mae cynnydd o 13.2% wedi bod yn nifer y gweithgareddau ymgynghori ac ymrwymo sydd wedi cael eu cynnal trwy Eich Llais Wrecsam (ein cyfleuster ymgynghori ar-lein).

## SUT WNAETHOM GEFNOGI CYDRADDOLDEB

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi'r gwaith rydym yn ei gyflawni i sicrhau fod gwasanaethau yn hygyrch - i fodloni safonau hygyrchedd ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus a sicrhau y gall pobl gael mynediad at y gwasanaethau maent eu hangen, mewn ffordd sydd yn iawn ar eu cyfer. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Parhau i wneud cynnydd da o ran hygyrchedd ein gwefan, gan gynnwys ychwanegu adnodd cyfieithu newydd fel bod y wybodaeth ar y wefan ar gael mewn nifer o ieithoedd.
- Mae sgorau hygyrchedd ar gynnwys y we yn parhau i fod yn uchel iawn.
- Rydym wedi arddangos gwelliant dros y flwyddyn gan sicrhau fod ein pyrth gwefan yn bodloni cydymffurfiaeth hygyrchedd.
- Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar ein Strategaeth Gyfranogi yn Rhagfyr 2022. Mae'r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, lle mae pawb yn gwybod y gallan nhw gymryd rhan i ddylanwadu'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau.  Mae pobl yn teimlo'r ymgysylltiad a bod y cyngor yn ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a ble bo'n bosib ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau; a gwneud i bethau ddigwydd, gyda'n gilydd.



## SUT FUON NI'N MESUR CYNNYDD:

*Amcanion Cydraddoldeb Strategol

** Mae COMG yn adlewyrchu'r perfformiad terfynol ar ddiwedd oes Cynllun y Cyngor presennol.

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Camau allweddol o'r Strategaeth Ddigidol a TGCh wedi eu rhoi ar waith. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Strategaeth wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol CBSW | Gweithredu'r Cynllun | GWYRDD | Do |
| 2 | Adolygu diogelwch TGCh a chymryd camau priodol. | Carreg Filltir | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Adrodd | OREN (oherwydd risg barhaus o ymosodiadau seiber) | Do |
| *3 | Parhau i hysbysu staff sy'n paratoi gwybodaeth i'w gyhoeddi'n electronig a rhoi hyfforddiant priodol. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Gweithredu'r Cynllun | GWYRDD | Do |
| *4 | Adolygu pyrth ein gwefan a'u blaenoriaethu i gydymffurfio â hygyrchedd. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *5 | Adolygu'r Strategaeth Cynnwys a Chynllun Gweithredu. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *6 | Sefydlu cyfeiriadur o gysylltiadau i grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig i'w defnyddio ag ymgynghoriadau ac Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Cwblhawyd | Cynnal | GWYRDD | Do |
| *7 | Hyfforddiant Cydraddoldeb ar gael i aelodau etholedig | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | MELYN | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *8 | Arolwg o aelodau etholedig presennol o ran nodweddion gwarchodedig. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | Arolwg (wedi etholiad llywodraeth leol 2022) | GWYRDD (Arolwg yn fyw ar amser ysgrifennu'r adroddiad, gyda dyddiad cau fymryn yn hwyrach) | Do |
| *9 | Gwneud arolwg o ymgeiswyr ar gyfer etholiad llywodraeth leol 2022 o ran nodweddion gwarchodedig | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) Bydd yn darparu gwaelodlin ar gyfer etholiad llywodraeth leol 2027 | GWYRDD (Arolwg yn fyw ar amser ysgrifennu'r adroddiad, gyda dyddiad cau fymryn yn hwyrach) | Do |
| *10 | Gwella data ar nodweddion gwarchodedig ein gweithlu<br>- cynnal cyfathrebu rheolaidd a gwahaniaethol gyda'r gweithlu i annog cyflwyno data cydraddoldeb. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 pandemic | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *11 | Datblygu adrodd ar recriwtio ar y we ar gyfer ymgeiswyr am swyddi fesul nodwedd warchodedig ar gyfer 2021/22. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Off track | Adrodd | OREN | Do |
| *12 | Sefydlu camau gweithredu ar gyfer unrhyw dan-gynrychiolaeth mewn ceisiadau am swyddi gan rai â nodweddion gwarchodedig. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd | OREN | No |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *13 | Cynnal adolygiad blynyddol o gamau gweithredu i ymdrin â bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw fylchau cyflog mewn grwpiau eraill gwarchodedig mewn ymateb i'r data sydd ar gael yn flynyddol am y gweithlu. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 pandemic | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd | GWYRDD | Do |
| *14 | Cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyflog y rhywiau fel sy'n ofynnol dan y ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 pandemic | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd | OREN | No |
| 15 | **Cynnal:** Canran y cwynion ac ymchwiliadau o ran darpariaeth gwasanaethau Cymraeg sydd wedi eu datrys yn llawn. | 100% | 100% | 100% | 100% | GWYRDD | Do |
| 16 | **Gwella:** Lefel ymgysylltiad y gweithwyr (cyfuniad o fesurau ymgysylltu gweithwyr a gymerwyd o'r arolwg gweithwyr). | 63% | 74% | Arolwg wedi'i oedi tan fis Mai 2022 | 74% | 70% GWYRDD | Na |
| 17 | **Gwella:** Canran y gweithwyr a ymatebodd yn gadarnhaol eu bod 'yn cael y cyfle i ddatblygu a gwella i gyrraedd eu potensial.' | 52% | 60% | Arolwg wedi'i oedi tan fis Mai 2022 | 60% | 57% GWYRDD | No |
| 18 | **Cynnal:** Canran y staff sy'n cytuno â'r datganiad bod 'cyfathrebu yn dda yn fy adran i.' | 55% | 60% | Arolwg wedi'i oedi tan fis Mai 2022 | 60% | 61% GWYRDD | Do |
| 19 | **Cynnal:** Canran y cwsmeriaid sy'n teimlo ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar ein gwefan. | 97% | 96% | 96% | 90% | 95% GWYRDD | Do |
| 20 | **Gwella:** Nifer y gwasanaethau sydd ar gael i gwsmeriaid drwy'r platfform digidol ar-lein. | 76 | 100 | 112 | 120 | 133 GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Gwella:** Nifer y gwasanaethau y gofynnodd cwsmeriaid amdanynt drwy'r platfform digidol ar-lein. | 40883 | 60880 | 83184 | 66000 | 63956<br>GWYRDD | No |
| 22 | **Gwella:** Canran y ceisiadau gwasanaeth trwy hunan wasanaeth yn hytrach na thrwy deleffoni wedi'i gyfryngu. | 66% | 71% | 74% | 80% | 77%<br>GWYRDD | No |
| *23 | **Gwella:** Amseroldeb data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ein gweithlu.<br>Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod data'n cael ei gyhoeddi cyn pen 12 mis. | Cyhoeddwyd y data erbyn mis Mawrth 2020. | Wedi'i effeithio gan Covid-19 pandemic | | Cyhoeddwyd erbyn mis Medi 2022. | Cyhoeddwyd<br>GWYRDD | Do |
| *24 | **Gwella:** Nifer y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhelir drwy Eich Llais Wrecsam. | 38 | 38 | 54 | Cynnydd | 43<br>Cynnydd o'r gwaelodlin<br>GWYRDD | Do |
| *25 | **Gwella:** Nifer y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhelir drwy Eich Llais Wrecsam. | 2019-21<br>Amrywiant = -26.72% | Ar y trywydd iawn | Amrywiaeth mewn grwpiau oedran iau wedi lleihau o -26.8% i -20%. | Lleihau | -21%<br>Lleihau o'r gwaelodlin<br>GWYRDD | Do |
| *26a | **Gwella:** Cynnydd<br>(a) nifer o ymgeiswyr ar gyfer etholiad lleol 2022. | Mesurydd perfformiad newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) | Methu cymharu gyda gwybodaeth o ymgeiswyr 2017 gan fod y data hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol iawn i ddarparu data gwaelodlin | |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *26b | **Gwella:** Cynnydd<br>(b) amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer etholiad leol 2022. | Mesurydd perfformiad newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) | Methu cymharu gyda gwybodaeth o ymgeiswyr 2017 gan fod y data hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol iawn i ddarparu data gwaelodlin | |
| 27 | **Gwella:** Proffil Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gyd-fynd yn well â phroffil demograffig y Fwrdeistref Sirol. | Mesurydd perfformiad newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) | Methu cymharu gyda gwybodaeth o ymgeiswyr 2017 gan fod y data hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol iawn i ddarparu data gwaelodlin | |

## PARHAU GYDA'N SIWRNAI I WELLA - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Ar y cyfan rydym wedi graddio'r blaenoriaeth hwn i'r cyngor fel melyn, sy'n golygu bod cynnydd da wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol gyda thystiolaeth o welliant ar draws nifer o fesuryddion perfformiad allweddol.

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn nifer o gerrig milltir, a nifer o fesuryddion perfformiad wedi gweld cynnydd sy'n cynnwys: nifer y ceisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid trwy blatfform digidol ar-lein, y ganran o gwynion ac archwiliadau yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth y Gymraeg sydd wedi cael eu datrys yn llawn ac wedi cael eu cynnal ar 100%, a'r ganran o gwsmeriaid sydd o'r farn ei bod yn hawdd cael mynediad i wasanaethau'r cyngor ar ein gwefan yn parhau i fod yn 90%. Fodd bynnag rydym yn cydnabod fod yna rai cerrig milltir rydym dal angen eu gwella gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer cyflog rhwng y rhywiau fel sydd yn ofynnol gan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 newydd rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod y cyngor yn sefydliad mwy hyblyg, gan weithio mewn ffordd fodern drwy wella ein datrysiadau technoleg a digidol, gwneud ein gwasanaethau yn fwy hygyrch i'n cwsmeriaid ac yn ddigon hyblyg i allu ymateb i heriau'r dyfodol. Sicrhau fod isadeiledd TGCh yn gryf a bod gofod swyddfa yn effeithiol ac yn hyblyg i allu cefnogi ein rhaglen. Ynghyd â hynny rydym eisiau bod yn gyflogwr o ddewis sy'n gallu recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a chynaliadwy ac wrth gwrs gallu sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi'r ymrwymiad i leihau ein ôl troed carbon. Bydd hyn yn sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu cwrdd ag anghenion y cymunedau y mae'n gyfrifol amdanynt.

Am ragor o wybodaeth ar sut i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaeth hwn darllenwch gyflwyniad o'r Cynllun y Cyngor 2023-28 arfaethedig newydd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# GWELLA ADDYSG UWCHRADD

### TAITH EIN CYNLLUN Y CYNGOR 2020-23

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rydym yn cydnabod yr effaith y mae addysg a dysgu yn ei gael ar bob grŵp oedran ac yn Wrecsam mae gennym lawer o ysgolion da a sefydliadau addysg ffurfiol ac anffurfiol. Dros y blynyddoedd diwethaf ac yng nghyd-destun pandemig Covid-19 mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gweithio'n galed i sicrhau fod ein holl ddysgwyr yn cael yr un cyfleoedd i addysg o safon uchel drwy wella ein cynnig fel Awdurdod Lleol i gefnogaeth, her ac ymyrraeth i greu system ysgol cynaliadwy sy'n gwella ei hun.

Ar ddechrau Cynllun y Cyngor 2020-23 datblygwyd y Flaenoriaeth Gwella Addysg Uwchradd wrth ymateb i ganlyniadau addysgol dysgwyr yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd yn Wrecsam sy'n is na'r unigolion cyfatebol hynny'n genedlaethol. Dyma ni'n cydnabod y pwysigrwydd o sicrhau fod gan holl ddysgwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam fynediad i ysgolion uwchradd o berfformiad uchel gan fynegi ein gweledigaeth i wella canlyniadau ysgol uwchradd ac i fynd i'r afael ag argymhellion arolwg Estyn yn 2019.

Fodd bynnag o fewn yr amser hwn cafodd ein cynlluniau i wella addysg uwchradd eu heffeithio'n sylweddol gan bandemig Covid-19. Roedd y galw a'r cyflymder am newid yn ein hysgolion yn ystod y pandemig a'r cyfnod adfer yn ddigynsail gyda'n hysgolion, rhieni a phlant yn cwrdd â heriau a gofynion oedd yn newid yn barhaus. Cawsom ein siomi yr ochr orau gyda gwydnwch ein pobl ifanc, rhieni, ein gweithwyr a chymunedau lleol wrth ymdopi â'r amseroedd eithriadol hyn gan gydweithio i gyflwyno profiadau dysgu ac addysgu ystyrlon drwy ddulliau dysgu cyfunol creadigol. Er fod cyfyngiadau Covid-19 wedi dod i ben erbyn hyn, mae'r effaith barhaus o'r aflonyddwch yn parhau i gael ei brofi'n genedlaethol, ac mewn nifer o ardaloedd, o ran presenoldeb, iechyd a lles emosiynol a cholli clyw.

Oherwydd gorfod gohirio Casgliadau Data Cenedlaethol, cau ysgolion a'r effaith a gafwyd ar gynllunio'r Cwricwlwm Cymru newydd roedd hi'n anodd adrodd ar dargedau a gafodd eu gosod ar ddechrau Cynllun y Cyngor. Er gwaethaf yr heriau a'r rhwystrau, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod amserlen Cynllun y Cyngor i fynd i'r afael â'r meysydd y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg ac mae effaith y camau gweithredu hyn i'w gweld mewn nifer o fesuryddion perfformiad. Rŵan bo gennym y sylfeini yn eu lle, rydym yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn ein siwrnai gwelliant, i wella canlyniadau addysg, dysgu gydol oes a dyheadau ymhellach ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnig cyfleoedd i'n holl ddysgwyr i wireddu eu potensial ac i roi'r cyfle gorau posib iddyn nhw mewn bywyd.

### YR HYN A DDYWEDOM Y BYDDEM YN EI WNEUD:

- Ymateb i heriau uniongyrchol drwy weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a gweithredu adferiad cadarn ar gyfer addysg tra'n adeiladu sylfaen gref sy'n ein galluogi ni i ddarparu newidiadau sylfaenol Llywodraeth Cymru i dirlun addysgol Cymru.
- Datblygu a gweithredu ein Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg i wella canlyniadau Addysg Uwchradd sy'n canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol a gytunwyd arnynt:
    - Capasiti ac arbenigedd gwasanaeth;
    - Gwelliant i sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr ar ddiwedd addysg statudol;
    - Presenoldeb a Gwaharddiadau; a
    - Sicrwydd ansawdd a hunanwerthuso.
- Darparu ein hamcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol i gau'r bylchau cyrhaeddiad mewn ysgolion drwy:

- Gefnogi ysgolion i gynyddu perfformiad bechgyn ymhob cyfnod allweddol;
- Ymgymryd â diweddariadau i ysgolion er mwyn sicrhau hygyrchedd i bawb; a

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL AR GYFER BLAENORIAETH GWELLA ADDYSG UWCHRADD 2020-23

- Gweledigaeth hirdymor eglur, ymrwymiad cadarn a brwdfrydedd i wella canlyniadau i ddysgwyr wedi cael ei arddangos ar draws y Gwasanaeth Addysg.
- Yn ystod Covid-19, mae ysgolion ar draws Awdurdod Lleol Wrecsam wedi darparu profiadau addysgu a dysgu ystyrlon trwy ddull dysgu cyfunol creadigol.
- Ni chafodd myfyrwyr eu heffeithio'n negyddol gan aflonyddwch Covid-19 i'r cylch arholiadau ac roedd hi'n bosib cael mynediad i gymwysterau .
- Cynhaliwyd cymorth ar gyfer lles a diogelu yn ystod y pandemig a chymerwyd camau i fod yn ragweithiol gyda chefnogi lles pawb er gwaetha'r heriau.
- Roedd gan yr holl ysgolion fynediad i ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ofynion y Cwricwlwm Newydd Cymru a chefnogwyd nhw i adolygu a diwygio eu cynnig cwricwlwm.

Dyma ni'n parhau i weithredu ein Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg er mwyn gwella deilliannau Addysg Uwchradd ac mae'r meysydd allweddol i'w datblygu yn cynnwys:

### Capasiti ac arbenigedd gwasanaeth

- Gwella ffocws yr awdurdod lleol ar gefnogaeth ac arweiniad i arweinyddiaeth yn ysgolion Wrecsam a chynyddu'r nifer o arweinwyr ysgolion sy'n cael mynediad i hyfforddiant o safon uchel a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.
- Trefniadau cadarn wedi cael eu gweithredu i wella cydweithio rhwng ein arweinwyr ysgol, swyddogion yr awdurdod lleol a GwE (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru).
- Mae holl swyddi arweinyddiaeth yng Ngwasanaeth Addysg yr awdurdod lleol wedi cael eu llenwi â phobl gyda sgiliau o safon uchel sydd â phrofiad o un ai arwain neu gefnogi canlyniadau gwelliant.

### Gwell canlyniadau i ddysgwyr ar ddiwedd addysg statudol

- Mae ysgolion wedi cael eu cefnogi i ddatblygu cynnig Cyfnod Allweddol 4 ysgogol i gefnogi cynnydd i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth ac i godi dyheadau.
- Ar ddiwedd 2021, dyma 96.5% o bobl ifanc wnaeth adael Cyfnod Allweddol Pedwar (Blwyddyn 11) yn symud ymlaen i'r chweched dosbarth, coleg, brentisiaeth neu gyflogaeth. Mae hynny'n cyd-fynd â'r darlun cenedlaethol.
- Mae gwella'r broses o rannu arfer da a chefnogaeth o safon uchel yn benodol i bynciau ar draws ysgolion wedi gwella dysgu ac addysgu ar draws nifer o bynciau ac yn arbennig mewn Saesneg a Mathemateg.
- Rydym wedi datblygu casgliad a dadansoddiad data i gefnogi'r gwaith o adnabod y rhwystrau i

ddysgu ar gyfer ysgolion, er mwyn gwneud yn siŵr fod ysgolion yn gallu mynd i'r afael yn well ag anghenion y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o beidio â chyflawni.

## Presenoldeb a Gwaharddiadau

- Yn ystod y cyfnod rhwng 05/09/22 a 17/03/23, roedd presenoldeb ysgol yn gyffredinol ar gyfer Wrecsam (yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd) yn 91%, dyma'r uchaf yng Nghymru ac mae'n dystiolaeth o effaith y gwaith a wnaed.
- Er bod targedau presenoldeb Cynllun y Cyngor heb gael eu cwrdd, yn ystod cyfnod 01/09/22 i 31/03/2023, roedd y presenoldeb cyffredinol ar gyfer ysgolion uwchradd yn Wrecsam yn 89.3%. Trwy gymharu hynny â'r data cyfartaledd cenedlaethol o 87.9% ar gyfer cyfnod tebyg i flynyddoedd 7 i 11 mewn ysgolion, mae Wrecsam wedi perfformio fymryn yn well.
- Rydym wedi gweld gwelliannau gyda lleihad mewn gwaharddiadau parhaol, gyda 9 gwaharddiad parhaol ar ddiwedd 2022/23 o'i gymharu ag 11 gwaharddiadau parhaol ar ddiwedd 2021/22.
- Mae cefnogaeth wedi cael ei ddarparu i ysgolion ddechrau datblygu darpariaeth i gynnig tegwch addysgol i bob dysgwr, gan sicrhau amgylchedd ddysgu gynhwysol i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n ddiamddiffyn i ddysgu fel eu bod nhw'n cyflawni canlyniadau mwy positif.
- Mae Arolwg Ymagwedd Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol wedi cael eu cwblhau mewn ysgolion, bydd data rŵan yn cael i ddefnyddio i dargedu adnoddau yn fwy effeithiol mewn ysgolion.
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant yn seiliedig ar drawma, gan weithio tuag at fodel cyson o ymarfer ar draws Addysg, Gofal Cymdeithasol a phartneriaid allanol.

## Sicrwydd ansawdd a hunanwerthuso

- Roedd pum ysgol uwchradd ar ddechrau Cynllun y Cyngor yng nghategori 'camau dilynol' Estyn. Yn ystod oes Cynllun y Cyngor, cafodd hynny ei leihau i un ysgol yn y categori 'camau dilynol' o ganlyniad i ddau ysgol uwchradd yn cael eu tynnu o'r categori 'dan adolygiad' a dau ysgol yn cael eu tynnu o 'fesurau arbennig'. Felly, wedi cwrdd â'r targedau a osodwyd ar ddechrau Cynllun y Cyngor.
- Ar y cyfan, roedd cynnydd da wedi cael ei wneud gyda chefnogi ysgolion a oedd yn destun pryder gan wella profiadau dysgu ac addysgu i ddisgyblion ysgolion Wrecsam. Mae llai o ysgolion yng nghategorïau 'dilyn i fyny' Estyn.
- Camau gweithredu wedi'u gwella i gefnogi ysgolion gyda hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella, gyda 'Cynghorwyr Gwelliant' Awdurdod Lleol wedi ymrwymo yn weithgar i werthuso gweithgareddau mewn ysgolion.
- Mae'r holl ysgolion uwchradd yn cael eu cefnogi gan bartneriaeth yr awdurdod lleol/ GwE mewn ffordd cydlynol ac integredig trwy gynlluniau datblygu ysgol unigol.
- Mae'r holl ysgolion uwchradd yn gwneud defnydd deallusol o ddata ynghyd â gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i werthuso safonau ac i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach; er mai dim ond mewn ychydig ysgolion y mae'n cael ei adnabod, mae'r prosesau hyn angen eu cryfhau ymhellach i sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd y dysgwr.

**Sut wnaethom gefnogi cydraddoldeb**

Trwy ein ffocws ar Wella Addysg Uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam fe wnaethom ymrwymo i fodloni ein cyfrifoldebau cydraddoldeb fel y nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud i sefydlu Gwasanaeth Estyn Allan ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymysg disgyblion, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac uwchradd. Mae ymgysylltiad cynnar gyda phlant Teithwyr wedi bod yn allweddol ar gyfer sefydlu'r sgiliau cymdeithasu cynradd hanfodol hynny a datblygiad cynnar drwy chwarae.

O fewn darpariaeth uwchradd, mae amgylchedd deniadol a llawn ysgogiad wedi cael ei greu sy'n cwrdd ag anghenion dysgwyr. Mae'r ddarpariaeth wedi profi i fod yn adnodd allweddol i ysbrydoli plant i barhau gyda'u haddysg a sicrhau fod ysgolion wedi ymgysylltu â'r rhaglen.



## SUT FUON NI'N MESUR CYNNYDD:

* Amcanion Cydraddoldeb Strategol

** Mae COMG yn adlewyrchu'r perfformiad terfynol ar ddiwedd oes Cynllun y Cyngor presennol.

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *1 | Sefydlu gwasanaeth Estyn Allan i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn seiliedig ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | Adrodd ar gynnydd | GWYRDD | Do |
| *2 | Sefydlu gwasanaeth Estyn Allan i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn seiliedig ar ddarpariaeth uwchradd. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | Adrodd ar gynnydd | GWYRDD | Do |
| 3 | **Gwella:** Mae dyfarniadau arolygon mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam yn cymharu'n dda ag ysgolion uwchradd ledled Cymru. | (Rhagfyr 2019)<br>2 = Categori "Adolygiad Estyn"<br>1 = Categori "Gwelliant Sylweddol"<br>2 = Categori "Mesurau Arbennig" | O ganlyniad i bandemig Covid-19, cafodd y mwyafrif arolygiadau Estyn yn ystod 2020/21 eu canslo. | 0 = Categori "Adolygiad Estyn"<br>1 = Categori "Gwelliant Sylweddol"<br>1 = Categori "Mesurau Arbennig" | 2 allan o 3 ysgol ar hyn o bryd mewn categori statudol sy'n fod i gael eu tynnu allan ohoni. | 0 = Categori "Adolygiad Estyn"<br>0 = Categori "Gwelliant Sylweddol"<br>1 = Categori "Mesurau Arbennig"<br>GWYRDD | Do |
| 4a | **Gwella:** Mae lefelau presenoldeb y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd wedi altro ac ar, neu'n uwch na 94%. | Data ALI 2021/22 Medi 21 – Mai 22<br>95% ac uwch = 0/9<br>90% i 94% = 2/9<br>85% i 89% = 7/9<br>84% ac is = 0/9 | Cafodd y gwaith o gasglu presenoldeb yn 2020/21 ei ganslo oherwydd Covid-19. | Data ALI 2021/22:<br>(Medi 21 – Mai 22)<br>95% ac uwch = 0/9<br>90% i 94% = 2/9<br>85% i 89% = 7/9<br>84% ac is = 0/9 | Nifer o Ysgolion Uwchradd gyda Cyfraddau Absenoldeb wedi Altro Ar neu'n Uwch na 94% - 7/9 | Data ALI 2022/23:<br>(Medi 22 – Mawrth 23)<br>95% ac uwch = 0/9<br>90% i 94% = 2/9<br>85% i 89% = 7/9<br>84% ac is = 0/9<br>MELYN | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4b | **Gwella:** Presenoldeb Cyffredinol mewn Ysgolion Uwchradd.. | 2018/19<br>Presenoldeb Uwchradd:<br>Wrecsam: 93.5%<br>Cymru: 93.8% | Cafodd y gwaith o gasglu presenoldeb yn 2020/21 ei ganslo oherwydd Covid-19. | Blwyddyn Academaidd 2021/22<br>88.6%<br>(01/09/2021-31/03/2022) | Adennill Presenoldeb Cyffredinol - Uwchradd:<br>Wrecsam - 94% | Blwyddyn Academaidd 2022/23<br>89.3%<br>(01/09/2022-31/03/2023)<br>I'w gymharu: presenoldeb ar gyfartaledd mewn ysgolion a gynhelir ar draws Cymru ar gyfer blynyddoedd 7 i 11 oed (medi 22 - Mawrth 23) yn 87.9%.<br>MELYN | Na |
| 5 | **Gwella:** Nifer y gwaharddiadau parhaol. | Mesur Cynllun y Cyngor gwreiddiol wedi'i ddiwygio yn dilyn atal mesuryddion cenedlaethol | Ail agorodd yr ysgolion ar 14 Medi 2020 felly nid oes gennym ddata ystyrlon. | 01/09/2021 i 31/03/2022<br>11 gwaharddiad parhaol | Lleihau | 01/09/2022 to 31/03/2023<br>9 permanent exclusions<br>GWYRDD | Do |
| 6 | **Gwella:** Nifer o waharddiadau cyfnod penodol yn fwy na pum diwrnod. | Mesur Cynllun y Cyngor gwreiddiol wedi'i ddiwygio yn dilyn atal mesuryddion cenedlaethol | Ail agorodd yr ysgolion ar 14 Medi 2020 felly nid oes gennym ddata ystyrlon. | 01/09/2021 i 31/03/2022<br>49 gwaharddiad cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod) | Lleihau | 01/09/2022 i 31/03/2023<br>71 gwaharddiad cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod)<br>OREN | Na |
| 7 | **Gwella:** Nifer o waharddiadau cyfnod penodol yn llai na pum diwrnod. | Mesur Cynllun y Cyngor gwreiddiol wedi'i ddiwygio yn dilyn atal mesuryddion cenedlaethol | Ail agorodd yr ysgolion ar 14 Medi 2020 felly nid oes gennym ddata ystyrlon. | 01/09/2021 i 31/03/2022<br>752 o waharddiadau cyfnod penodol (llai na 5 diwrnod) | Lleihau | 01/09/2022 i 31/03/2023<br>836 o waharddiadau cyfnod penodol (llai na 5 diwrnod)<br>OREN | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8a* | **Gwella:** Cefnogi ysgolion i wella perfformiad bechgyn ym mhob cyfnod allweddol drwy leihau'r amrywiant rhwng bechgyn a merched.<br>a) Sgôr Capio 9 | (2018/19)<br>ALI (Bechgyn) = 312.6<br>ALI (Merched) = 358.2<br>Amrywiant = 45.6 | Cafodd arholiadau Cyfnod Allweddol 4 eu canslo yn 2019/20 oherwydd Covid-19 ac ni chafodd unrhyw ddata ALI ei gyhoeddi. | Yn sgil canslo'r cyfnod arholiadau arferol yn 2020/21 a'r ymyrraeth parhaus i ysgolion yn sgil pandemig Covid-19, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai mesurau perfformio Sgôr Capio 9 yn cael ei gyfrifo na'i gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21. | Lleihau amrywiant drwy wella perfformiad bechgyn | Dydi adrodd arferol heb ail-ddechrau. | |
| 8b | **Gwella:** Cefnogi ysgolion i wella perfformiad bechgyn ym mhob cyfnod allweddol drwy leihau'r amrywiant rhwng bechgyn a merched.<br>b) Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol Tri | (2018/19)<br>ALI (Bechgyn) =82.9<br>ALI(Merched) =90.6<br>Amrywiant = -7.7 | Cafodd Asesiadau Cyfnod Allweddol 3 eu canslo yn 2019/20 oherwydd Covid-19 ac ni chafodd unrhyw ddata ALI ei gyhoeddi. | Cafodd y mesurau perfformiad ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 3 eu gohirio ar gyfer 2020/21. | Lleihau amrywiant drwy wella perfformiad bechgyn | 2021/22<br>Ysgolion Uwchradd = 75.8%<br>ALI(Bechgyn) = 71.7%<br>ALI(Merched) = 80.1%<br>Amrywiant = -8.3<br>OREN | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. | **Gwella:** Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol Pedwar sy'n symud ymlaen i'r chweched dosbarth, coleg, prentisiaethau neu gyflogaeth. | Data Cyrchfannau Blwyddyn 11 2020:<br>Wrecsam: 97.3%<br>Cymru: 96.90%<br>Ffynhonnell: Gyrfa Cymru | Mesur newydd ar gyfer 2022/23 | Mesur newydd ar gyfer 2022/23 | Gwella | Wrecsam: 96.5%<br>Cymru: 96.7%<br>MELYN | Na |
| 10* | **Gwella:** Cynyddu nifer yr adeiladau ysgol Cynradd sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 | Cynradd (58)<br>Cydymffurfio = 32<br>Ddim yn cydymffurfio = 11<br>Yn cydymffurfio'n rhannol =15 | Ddim yn cael ei adrodd | Cynradd (59)<br>Cydymffurfio = 32<br>Ddim yn cydymffurfio = 12<br>Cydymffurfio'n rhannol = 15 | Yr 1 ysgol sy'n cydymffurfio'n rhannol i gydymffurfio | Cynradd (59)<br>Cydymffurfio = 32<br>Ddim yn cydymffurfio = 12<br>Yn cydymffurfio'n rhannol =15<br>MELYN | Na |
| 11* | **Cynnal:** Canran o ysgolion sydd â chynlluniau hygyrchedd yn eu lle - adolygu'n flynyddol. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100%<br>GWYRDD | Do |
| 12* | **Gwella:** Nifer yr adeiladau ysgol Cynradd â chategori cyflwr A neu B. | Cynradd (58)<br>Categori A = 7<br>Categori B = 30<br>Categori C = 21 | Ddim yn cael ei adrodd | Cynradd (59)<br>Categori A = 8<br>Categori B = 34<br>Categori C = 34 | Cynyddu Categori A + 1 ysgol | Cynradd (59)<br>Categori A = 33<br>Categori B = 15<br>Categori C = 0<br>Categori D = 10<br>GWYRDD | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13* | **Gwella:** Presenoldeb Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr | (2018/19)<br>67.7% | Cafodd y gwaith o gasglu presenoldeb yn 2020/21 ei ganslo oherwydd Covid-19. | Blwyddyn Academaidd 2021/22<br>50.92%<br>(01/09/2021-31/03/2022) | Gwella | Blwyddyn Academaidd 2022/23<br>50.9%<br>01/09/2022 i 31/03/2023<br>MELYN | Na |
| 14* | **Gwella:** Gwahardd Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | (2018/19)<br>Gwaharddiadau cyfnod penodol = 5<br>Nifer o ddyddiau = 11<br>Gwaharddiadau parhaol = 1 | Cafodd y gwaith o gasglu presenoldeb yn 2020/21 ei ganslo oherwydd Covid-19. | Gwaharddiadau tymor penodol = 6<br>Nifer y dyddiau = 30.5<br>Gwaharddiadau parhaol = 0 | Gwella | 01/09/2022 - 31/03/2023<br>Gwaharddiadau tymor penodol = 10<br>Nifer y dyddiau = 32.5<br>Gwaharddiadau parhaol = 0<br>MELYN | Na |

## PARHAU GYDA'N SIWRNAI I WELLA - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Ar y cyfan rydym wedi graddio'r blaenoriaeth hwn i'r cyngor fel melyn, sy'n golygu bod cynnydd da wedi cael ei wneud o fewn meysydd ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol gyda thystiolaeth o welliant ar draws nifer o fesuryddion perfformiad allweddol i gynnwys; presenoldeb, gwaharddiadau parhaol a dyfarniadau arolwg.

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod cynnydd da wedi cael ei wneud yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg, er hynny mae wedi'i osod yn erbyn cyd-destun yr amgylchedd addysgol presennol, ac er bod cyfyngiadau Covid-19 bellach wedi dod i ben, mae effaith parhaus yr aflonyddwch yn dal i fodoli ac wedi cael effaith ar ein gallu i gasglu rhai mesuryddion perfformiad gwreiddiol ac i gwrdd â'r targedau a gytunwyd arnynt. O fewn Cynllun y Cyngor newydd 2023-28, rydym eisiau parhau ar ein siwrnai gwelliant, gan ehangu ein blaenoriaeth i ganolbwyntio ar wella addysgu a dysgu i bob oedran gan gydnabod y pwysigrwydd o wahanol gyfnodau a sut y gall y rhain effeithio ar y cyfnodau nesaf. Byddwn yn parhau i weithio tuag at wella canlyniadau a dyheadau addysgol ar draws y Fwrdeistref Sirol gan ddarparu cyfleoedd i'n dysgwyr i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau, gan roi'r cyfle gorau posib i'n dysgwyr mewn bywyd.

Am ragor o wybodaeth ar sut i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaeth hwn darllenwch gyflwyniad o'r Cynllun y Cyngor 2023-28 arfaethedig newydd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# HYRWYDDO IECHYD A LLES (GAN GANOLBWYNTIO AR OFAL CYMDEITHASOL PLANT)

## TAITH EIN CYNLLUN Y CYNGOR 2020-23

Cydnabuom bod iechyd a lles da yn un o'r pethau pwysicaf y gall unigolyn ei gael ac mae'n effeithio ar gymaint o rannau eraill o'u bywyd. Dros y blynyddoedd diwethaf ac o fewn cyd-destun pandemig Covid-19 mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi canolbwyntio ar wella gwasanaethau Gofal Cymdeithasol gan gynnwys ein gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o gymorth cynnar a sut y mae cynnig gwasanaethau hygyrch ac ymatebol sy'n gallu ymateb yn gynnar i heriau newydd y mae pobl yn eu wynebu, yn osgoi'r angen am wasanaethau mwy acíwt yn hwyrach ymlaen, gan wneud yn siŵr fod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr amser cywir ac yn y ffordd gywir.

Ar ddechrau Cynllun y Cyngor 2020-23, dyma ni'n gwneud y penderfyniad i flaenoriaethu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant i gynnal ein taith tuag at welliant, gyda golwg ar ddarparu'r lefel gywir o ofal a chefnogaeth, lle mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial. O fewn y flaenoriaeth hon rydym wedi ymrwymo i wella gwasanaethau su'n cefnogi iechyd a lles da i bawb gan gynnwys darparu ein Canolfan Les newydd yng nghanol y ddinas.

Fodd bynnag o fewn yr amser hwn cafodd ein cynlluniau eu heffeithio'n sylweddol gan bandemig Covid-19. Nid yw'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hawdd i bobl yn ein cymunedau; ac mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi wynebu nifer o heriau ac mae'r galw a'r effaith o ran newid i'n cynlluniau wedi bod yn ddigynsail. Cafodd llawer o'n gwasanaethau allweddol eu hailgyfeirio a'u newid er mwyn ymateb i'r argyfwng barhaus. Mewn amserlen byr iawn roedd ein timau yn ail ddylunio eu harferion gwaith arferol ac yn ymateb i'r amgylchedd oedd yn newid yn barhaus. Ynghyd â hyn mae'r heriau gyda recriwtio i ofal cymdeithasol yn genedlaethol wedi cael effaith ar y gwasanaeth ac mae Gofal Cymdeithasol i Blant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi ymateb gyda mentrau arloesol a chreadigol i annog recriwtio i adran Gofal Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Er gwaetha'r heriau hyn mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ein harferion wrth i ni symud tuag at wella canlyniadau i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion sydd angen ein gwasanaethau. Rydym yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf o'n siwrnai gwelliant i gefnogi ein cymunedau ymhellach i wella eu hiechyd a'u lles.

## YR HYN A DDYWEDOM Y BYDDEM YN EI WNEUD:

- Cydweithio'n agos gyda phobl leol, budd-ddeiliaid, a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu a chynnal cymunedau cryf, iach a chadarn;
- Cyflawni gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol plant er mwyn gwireddu'r weledigaeth drwy gyflwyno cynllun gweithredu'r Bwrdd Gwelliannau Cyflym;
- Cyflawni gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy ganolbwyntio ar wasanaethau atal a chymorth cynnar gan wneud y mwyaf o adnoddau cymunedol a'u cysylltiadau gyda'r trydydd sector;
- Cynyddu'r niferoedd o ofalwyr maeth yn fewnol trwy broses recriwtio a chynnal gwell;
- Ailfodelu'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol drwy ddefnyddio mwy o fuddsoddiad gan y chwech Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru;
- Gwella cymhwysedd gofal yn y cartref a

chymhwysedd ailalluogi drwy gynyddu cymhwysedd yn fewnol ac adeiladu ar gydweithio rhwng gwasanaeth mewnol y cyngor a darparwyr sector annibynnol. Yn ogystal, gweithio gyda darparwyr sector annibynnol i gefnogi'r broses o recriwtio a chadw gweithwyr ar draws y sector yn well. Mae CBSW yn gweithio mewn partneriaeth â BIPBC i ddatblygu proses ar y cyd i recriwtio Gweithwyr Cefnogi/Cynorthwywyr Gofal Iechyd er mwyn magu diddordeb ehangach mewn gyrfa o fod yn ofalwr cyflogedig;

- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Iechyd i ddatblygu llwybrau rhyddhad i asesu yn unol ag Arweiniad presennol Llywodraeth Cymru;
- Adnabod, adolygu a gwella gweithgareddau presennol y cyngor mewn cysylltiad â gwasanaethau ataliaeth a chymorth cynnar ar gyfer iechyd a lles da;
- Datblygu hwb lles yng nghanol y dref;
- Rheoli'r cynnydd yn y galw am atgyfeiriadau wrth i unigolion a theuluoedd ddod allan o'r cyfnod clo yn erbyn yr heriau o ddiffyg staff mewn meysydd allweddol o'r gwasanaeth yn cynnwys: Therapi Galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol a Gofalwyr Cyflogedig. Mae'r Cyngor wedi datblygu prosiect 'Datblygu eich gweithlu eich hun' i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu talent ein hunain yn yr ardaloedd hyn, gyda'r nod o gynnig cyfleoedd a llwybrau datblygu i'r maes. Mae recriwtio ar gyfer y swyddi hyn yn heriol iawn ar draws y rhanbarth a'r sector; a
- Byddwn yn cefnogi ysgolion i weithredu ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL Y FLAENORIAETH HYRWYDDO IECHYD A LLES 2020-23

**Bydd plant yn ddiogel:**

- Yn ystod y pandemig dyma'r timau diogelu oedolion a'r timau sicrwydd ansawdd a diogelu plant yn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym.
- Mae cynnydd ardderchog wedi cael ei wneud ym mwyafrif y camau gweithredu Bwrdd Gwelliannau Cyflym y Gwasanaethau Plant. Yn ystod 2022 symudodd y Bwrdd Gwelliannau ymlaen i'r cyfnod nesaf o'r siwrnai gwella ac ehangwyd y cwmpas i gynnwys canlyniadau gwella ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion, a'i ail-enwi yn Fwrdd Gwella Gofal Cymdeithasol.
- Cefnogi ei nod hirdymor i leihau'r galw am wasanaethau acíwt, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud drwy weithio gyda'n partneriaid i ddarparu rhaglen Atal a Chymorth Cynnar (AChC) sy'n cynnwys; cytundeb ein Fframwaith AChC a'n Strategaeth AChC a sefydlu Partneriaeth AChC a fydd yn gyrru'r gwaith yr ydym wedi gytuno arno ymlaen.
- Yn ystod chwarter olaf 2022/23 roedd y nifer o blant sy'n derbyn gofal wedi gostwng o ganlyniad i nifer o fentrau newydd gan gynnwys; gorchmynion goruchwylio a'n Cynnig Gwarchodaeth Arbennig.
- Trwy gydol 2022/23 roedd y Gwasanaethau Plant wedi cynnal perfformiad gwych o ran sicrhau bod plant/pobl ifanc yn cael eu gweld fel rhan o'u hasesiad. Mae hyn yn amlygu'r gwerth y mae'r adran yn ei roi ar lais, dewis a rheolaeth yr unigolyn ifanc yn ystod y broses asesu.

**Gweithlu iach, medrus, llawn cymhelliant ac sy'n cymryd rhan:**

- Yn ystod y pandemig rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithio i ddarparu rhaglenni lles gweithwyr dros y we, gyda phwyslais yn arbennig ar weithgareddau lles meddyliol a chyfranogi.
- Mae holl ddigwyddiadau iechyd a lles wedi symud yn ôl i fod wyneb yn wyneb, ac mae gweithwyr wedi ymateb yn bositif i hyn ac wedi cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd hyn gyda brwdfrydedd.
- Wedi cynnal ein Safon Iechyd Corfforaethol Aur. Mae'r adroddiadau asesu yn bositif iawn ynghylch y ffordd y mae'r cyngor yn cefnogi lles gweithwyr trwy amryw o fentrau.
- Llwyddiant parhaus y prosiect 'Datblygu eich gweithlu eich hun' i feithrin talent ein hunain mewn; Therapi Galwedigaethol, Gofal Cymdeithasol, cynlluniau prentisiaeth a Chynllun Gwaith Amgylcheddol dan Hyfforddiant.
- Wedi sefydlu caffi gofalwyr di-dâl ar gyfer gweithwyr sydd angen cefnogaeth neu arweiniad wrth geisio gael cydbwysedd rhwng gwaith a dyletswyddau gofalu am deulu neu ffrindiau. Mae hyn yn cynnwys lansio Taflen Ffeithiau Gofalwyr Di-dâl, darparu gwybodaeth a chyngor ar sut y gall y Cyngor gefnogi gofalwyr di-dâl.
- Sefydlu grŵp menopos mewnol ar draws y sefydliad gyda'r nod o gyflwyno caffis menopos o fewn y chwe mis nesaf.
- Adolygu ein grwpiau Cefnogwyr Iechyd a Lles i gyfrif am yr amrywiaeth o amgylcheddau gwaith, diwylliannau amrywiol a swyddi ar draws y sefydliad.
- Wrth ymateb i'r hinsawdd ariannol rydym wedi lansio arweiniad ar gymorth ariannol i dynnu sylw at y gwobrau y gall y cyngor ei gynnig i'n gweithwyr yn ogystal â chyfeirio at sefydliadau defnyddiol sy'n gallu cynghori a chefnogi ein gweithwyr mewn nifer o sefyllfaoedd ariannol.
- Cyfranogiad gweithwyr i'r arolwg wedi gwella yn 2022. Wrth ymateb mae adrannau wedi cwblhau cynlluniau gweithredu unigol sy'n ymateb i safbwyntiau ac awgrymiadau.

**Gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd a lles da i bawb:**

- Mae Tîm Wrecsam Egnïol wedi datblygu nifer o gyfleoedd ar-lein i bobl aros yn weithgar yn ystod y cyfnodau clo trwy sesiynau dros fideo ar gyfer bobl ifanc, pobl hŷn ac i bobl ar y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.
- Mae Wrecsam Egnïol yn parhau i weithio mewn ysgolion a'r gymuned i ddarparu cyfleoedd wedi'u targedu i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon. Mae ffocws penodol wedi bod ar ddatblygu cyfleoedd i enethod ac i wella'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau pêl-droed SG newydd ar safleoedd ysgol.
- Trwy weithio mewn partneriaeth â Freedom Leisure, mae Wrecsam Egnïol yn parhau i ddarparu nifer o gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
- Mae gofod swyddfa newydd yn Adeiladau'r Goron wedi agor ar ôl gwaith ailddatblygu sylweddol, gan gynnig gofod cydweithredol ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd, y sector gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol addysg i gydweithio er mwyn cefnogi ein cymunedau.

- Mae Catalydd Cymunedol wedi datblygu rhwydwaith gref o fentrau i gefnogi'r Farchnad Gofal Cartref sydd dan bwysau, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y preswylwyr sy'n dewis taliad uniongyrchol yn hytrach na chymorth wedi'i gomisiynu, gan geisio rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i'n preswylwyr yn y gofal y maen nhw'n ei dderbyn.
- Wrth weithio gyda'n partneriaid, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam wedi llunio Cynllun Lles ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn seiliedig ar waith cyfranogi gyda disgyblion Ysgol Clywedog.
- Mae'r holl ysgolion yn cael eu cefnogi i weithredu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles. Yn cynnwys ystod o hyfforddiant ac ymyrraeth i gefnogi plant a phobl ifanc i fod â lles emosiynol a meddyliol da.

## SUT FUON NI'N MESUR CYNNYDD:

** Mae COMG yn adlewyrchu'r perfformiad terfynol ar ddiwedd oes Cynllun y Cyngor presennol.

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Darparu Cynllun Gweithredu Bwrdd Gwelliannau Cyflym ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Delivering | MELYN (Wedi'i effeithio gan heriau recriwtio cenedlaethol yng Ngofal Cymdeithasol 2022/23) | Do |
| 2 | Datblygu a Gweithredu'r Ganolfan Lles. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Gweithredu | GWYRDD | Do |
| 3 | Darparu'r prosiect trawsnewid ar gyfer Gofal Cymdeithasol. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Cyflawni | GWYRDD | Do |
| 4 | Gweithio gyda Phartneriaeth Atal a Chymorth Cynnar gan edrych ar ddatblygu ein Strategaeth Atal a Chymorth Cynnar. | Carreg Filltir | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Darparu strategaeth | GWYRDD | Do |
| 5 | Cynnal Safon Iechyd Corfforaethol Aur i yrru iechyd a lles y gweithlu. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Cyflawni | GWYRDD | Do |
| 6 | Cydweithio'n agos gyda phobl leol, budd-ddeiliaid, a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu a chynnal cymunedau cryf, iach a chadarn. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Cyflawni | GWYRDD | Do |
| 7 | Cefnogi ysgolion i weithredu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles. | Carreg Filltir | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Carreg Filltir Perfformiad Newydd | Cyflawni archwiliad ar bob ysgol | Archwiliad wedi'i gwblhau gan 97% o'r ysgolion GWYRDD | Na |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Gwella:** Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal: | 341 (30/03/2020) | 380 | 367 | v | 352 MELYN | Do |
| 9 | **Gwella:** Nifer o ofalwyr maeth generig gan yr awdurdod lleol | 53 | 55 | 50 | Cynnydd i 63 o ofalwyr maeth generig | 43 COCH | Na |
| 10 | **Gwella:** Nifer o blant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant oedd wedi cael eu cofrestru'n flaenorol o dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol. | 5.6% Cyfartaledd cenedlaethol 5.1% (2018/19) | 3.67% | 0.76% | Yn gostwng o dan gyfartaledd Cymru | 6.84% COCH | Na |
| 11 | **Gwella:** Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlen statudol. | 73.3% Cyfartaledd Cenedlaethol 88.9% (2018/19) | 75.1% | 74.8% | Cynyddu uwchben cyfartaledd Cymru | 76.6% OREN | Na |
| 12 | **Gwella:** Canran y plant a welwyd fel rhan o'u hasesiad. | 98.7% | 98.9% | 98.58% | 100% | 98.98% GWYRDD | Do |
| 13 | **Gwella:** Canran yr holl adolygiadau statudol a gynhaliwyd o fewn yr amserlen. | 90.20% | 84.65% | 81.34% | Cynyddu | 79.79% OREN | Na |
| 14 | **Gwella:** Nifer sy'n aros am ofal yn y cartref. | 26 o bobl | 36 o bobl | 136 o bobl | Lleihau | 22 MELYN | Do |
| 15 | **Gwella:** Cynyddu'r nifer o ofalwyr cyflogedig sy'n dod i'r gweithlu (gwaith datblygu yn fewnol) | 7 (Q2 2021/22) | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cynyddu | 47 MELYN | Do |

| Rhif | Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa DerfyNal ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** | Targed wedi'i Fodloni 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Gwella:** Canran o blant/pobl ifanc sy'n gorfforol egnïol am 60 munud/pum diwrnod yr wythnos | (Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Ysgol 2019) - 17% | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cynnydd | 16% MELYN | Na |
| 17 | **Gwella:** Canran/nifer o oedolion sy'n gorfforol egnïol am 150 munud yr wythnos. | (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20) 53% | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Cynnydd | 61% GWYRDD | Do |

## PARHAU GYDA'N SIWRNAI I WELLA - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Ar y cyfan rydym wedi graddio'r blaenoriaeth hwn i'r cyngor fel melyn, sy'n golygu bod cynnydd da wedi cael ei wneud o fewn meysydd o ffocws i gyflawni cerrig milltir allweddol gyda thystiolaeth o welliant ar draws nifer o fesuryddion perfformiad allweddol.

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am fod yna berfformiad cyson wedi bod mewn llawer o gerrig milltir a gytunwyd arnynt a gwelliant wedi bod mewn rhai mesuryddion perfformiad allweddol gan gynnwys; nifer o blant sy'n derbyn gofal a nifer y bobl sy'n aros am ofal yn y cartref. Fodd bynnag rydym yn derbyn fod yna rai meysydd allweddol yr ydym angen ail-ganolbwyntio arnyn nhw er mwyn eu gwella fel y ganran o'r holl adolygiadau statudol a gynhaliwyd yn y terfynau amser a'r nifer o leoliadau gofal maeth.

O fewn Cynllun y Cyngor newydd 2023-28 rydym eisiau parhau ar ein siwrnai gwelliant i wella'r cymorth sy'n cael ei gynnig i bobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i greu'r amodau i wella eu iechyd a'u lles. Mae hyn yn golygu bod pobl yn derbyn y gofal a chefnogaeth cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir. Rydym eisiau ymrwymo i wella ein gwasanaethau'n barhaus drwy ddeall anghenion poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y dyfodol drwy greu gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n gallu ymateb i'r nifer o heriau a wynebir yng ngofal cymdeithasol. Rydym eisiau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ddull yn seiliedig ar gryfderau, yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn gwrando ar lais y plentyn, oedolyn, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Wrth wneud hyn rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o ddatblygu ein gwaith gyda'n partneriaid a sut y mae cael mynediad cynnar i wasanaethau o safon uchel yn gallu lleihau'r angen am ymyraethau acíwt yn y dyfodol. Rydym eisiau i'n gwasanaethau iechyd a lles gwrdd ag anghenion y rheiny sy'n eu defnyddio nhw.

Am ragor o wybodaeth ar sut i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaeth hwn darllenwch gyflwyniad o'r Cynllun y Cyngor 2023-28 arfaethedig newydd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# RHEOLI EICH ARIAN - 2022/23

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn sefydlu canllaw strategol ar gyfer cynlluniau gwariant y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2023/24 i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor yng nghyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau refeniw a chyfalaf dangosol ac yn rhagamcanu lefel debygol Treth y Cyngor a balansau'r Cyngor. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi rheolaeth gyffredinol o adnoddau allweddol y Cyngor i ddarparu Blaenoriaethau'r Cyngor.

Fel rhan o'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig, roedd y gyllideb a gymeradwywyd gan yr aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn 2022/23 â therfyn arian parod o £280,678,293. Mae'r tabl isod yn dangos yr incwm a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23:

| Incwm | 2022/23 | |
|---|---|---|
| | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 |
| Welsh Government Funding | 207,064 | 207,064 |
| Council Tax | 73,614 | 73,614 |
| Contribution from Reserves | 0 | 9,149 |
| **Total** | **280,678** | **289,827** |

Dyma sut y gwnaethom wario eich arian:

| Refeniw | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|
| | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Gwirioneddol % |
| Yr Amgylchedd a Thechnegol | 37,497 | 39,922 | 6.47 |
| Cynllunio a Rheoleiddio | 2,639 | 2,412 | -8.60 |
| Tai ac Asedau | 3,978 | 3,990 | 0.31 |
| Economi | 4,205 | 3,660 | -12.95 |
| Gofal Cymdeithasol | 74,949 | 86,475 | 15.38 |
| Addysg ac Ymyrraeth Gynnar | 7,166 | 6,726 | -6.15 |
| Ysgolion | 96,801 | 101,007 | 4.35 |
| Cyllid a TGCh | 7,850 | 7,211 | -8.14 |
| Llywodraeth a Gwasanaethau i Gwsmeriaid | 3,667 | 3,745 | 2.11 |
| Y Prif Weithredwr | 3,290 | 3,152 | -4.20 |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 2,780 | 2,236 | -19.57 |
| Corfforaethol a Chanolog | 35,856 | 29,291 | -18.31 |
| **Cyfanswm** | **280,678** | **289,827** | |

Gwariodd gwasanaethau Cronfa'r Cyngor £289,827 yn erbyn cyllideb o £280,678. Ar y cyd mae gwasanaethau (eg eithrio ysgolion) wedi gwario £159,528 a oedd yn £11,508 (7.77%) yn fwy na'r gyllideb. Mae gwariant Corfforaethol a Chanolog yn dangos arian yn weddill o £6,565, yn dilyn gwneud cais am arian wrth gefn i gefnogi sefyllfa'r gwasanaeth. Mae'n cynrychioli cyfanswm pwysau net o £4,942 (2.69%). Mae Balansau Cyffredinol y Cyngor wedi aros yr un fath.

Mae balansau ysgol wedi lleihau o £4,206, yn bennaf yn sgil dad-wneud y grantiau ychwanegol a dderbyniwyd yn 2021/22 ynghyd â phwysau costau yn ystod y flwyddyn.

# CYLLIDEBU ARIANNOL 2023/24

Roedd y gyllideb ar gyfer 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig yn cydnabod pwysau sylweddol o fewn gofal cymdeithasol ac mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu o ganlyniad i hynny. Roedd nifer o risgiau economaidd yn amlwg pan gymeradwyodd aelodau y gyllideb ynghyd â phwysau o ran galw, cost a chwyddiant cyflogau. Mae effaith hynny'n cael ei adolygu'n barhaus. Bydd adroddiadau cyllideb rheolaidd i aelodau etholedig yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn.

**Diolch i chi am ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23**

## DYWEDWCH EICH BARN

Croesawn eich barn ac awgrymiadau am y ffordd y gallwn wella. Gallwch rannu eich syniadau drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod.

I gael diweddariadau rheolaidd am weithgareddau cyfranogi y gallwch gymryd rhan ynddynt ar ein porth cyfranogi Eich Llais Wrecsam, ewch i'r dudalen Fy Niweddariadau ar wefan CBSW a dewis 'Ymgynghoriadau' o dan y testun 'Newyddion a Digwyddiadau' - ar ôl nodi eich cyfeiriad e-bost.

Email: telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk

# ATODIAD 1: PERFFORMIAD AMCAN CYDRADDOLDEB

Mae'r tablau isod yn darparu gwybodaeth ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir a mesurau yn gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb wedi'u grwpio o dan bob un o'r amcanion cydraddoldeb canlynol.

1. Lleihau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.
2. Ymgysylltu â'r rhai sydd yn chwilio am waith ac yn darparu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn helpu i gynyddu nifer y bobl ag anableddau sy'n cael cyfleoedd i weithio a chodi ymwybyddiaeth am y bwlch cyflog i'r grŵp hwn.
3. Gwella hygyrchedd y Cyngor.
4. Cynnwys pawb a sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth am y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, i wneud penderfyniadau da.
5. Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ethnig ein cymunedau gan sicrhau eu bod yn gynhwysol a chroesawgar.
6. Cefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth leol.
7. Gwella amrywiaeth a mynd i'r afael â bylchau cyflog yng ngweithlu'r Cyngor.



## AMCAN 1 - LLEIHAU BYLCHAU CYRHAEDDIAD MEWN ADDYSG

Graddio'n Gyffredinol fel MELYN

a). Cefnogi ysgolion i gynyddu perfformiad bechgyn ymhob cyfnod allweddol.

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella:** Cefnogi ysgolion i wella perfformiad bechgyn ym mhob cyfnod allweddol drwy leihau'r amrywiant rhwng bechgyn a merched.<br>a) Capio sgôr o 9 | (2018/19)<br>ALI (Bechgyn) = 312.6<br>ALI (Merched) = 358.2<br>Amrywiant = 45.6 | Cafodd arholiadau Cyfnod Allweddol 4 eu canslo yn 2019/20 oherwydd Covid-19 ac ni chafodd unrhyw ddata ALI ei gyhoeddi. | Yn sgil canslo'r cyfnod arholiadau arferol yn 2020/21 ac yr ymyrraeth parhaus i ysgolion yn sgil pandemig Covid-19, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai mesurau perfformio Sgôr Capio 9 yn cael ei gyfrifo na'i gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21. | Lleihau amrywiant drwy wella perfformiad bechgyn | Dydi adrodd arferol heb ail-ddechrau. |
| Gwella: Cefnogi ysgolion i wella perfformiad bechgyn ym mhob cyfnod allweddol drwy leihau'r amrywiant rhwng bechgyn a merched.<br>b) Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol Tri. | (2018/19)<br>ALI (Bechgyn) =82.9<br>ALI(Merched) =90.6<br>Amrywiant = -7.7 | Cafodd Asesiadau Cyfnod Allweddol 3 eu canslo yn 2019/20 oherwydd Covid-19 ac ni chafodd unrhyw ddata ALI ei gyhoeddi. | Cafodd y mesurau perfformiad ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 3 eu hatal ar gyfer 2020/21. | Lleihau amrywiant drwy wella perfformiad bechgyn | 2021/22<br>Ysgolion Uwchradd = 75.8%<br>ALI(Bechgyn) = 71.7%<br>ALI(Merched) = 80.1%<br>Amrywiant = -8.3<br>OREN |

b). Cyflawni gwaith uwchraddio adeiladau ysgolion er mwyn sicrhau hygyrchedd i bawb.

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella:** Cynyddu nifer yr adeiladau ysgol Cynradd sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. | Cynradd (58)<br>Cydymffurfio = 32<br>Ddim yn cydymffurfio = 11<br>Yn cydymffurfio'n rhannol =15 | Ddim yn cael ei adrodd | Cynradd (59)<br>Cydymffurfio = 32<br>Ddim yn cydymffurfio = 12<br>Cydymffurfio'n rhannol = 15 | Yr 1 ysgol sy'n cydymffurfio'n rhannol i gydymffurfio | Cynradd (59)<br>Cydymffurfio = 32<br>Ddim yn cydymffurfio = 12<br>Yn cydymffurfio'n rhannol =15<br>MELYN |
| **Cynnal:** Canran o ysgolion sydd â chynlluniau hygyrchedd yn eu lle - adolygu'n flynyddol. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100%<br>GWYRDD |
| **Gwella:** Nifer yr adeiladau ysgol Cynradd â chategori cyflwr A neu B. | Cynradd (58)<br>Categori A = 7<br>Categori B = 30<br>Categori C = 21 | Ddim yn cael ei adrodd | Cynradd (59)<br>Categori A = 8<br>Categori B = 34<br>Categori C = 34<br>GWYRDD | Cynyddu Categori A + 1 ysgol | Cynradd (59)<br>Categori A - 33<br>Categori B - 15<br>Categori C - 0<br>Categori D - 10<br>GWYRDD |

c). Cefnogi Disgyblion Sipiwn, Roma a Theithwyr i gael mynediad at y cwricwlwm.

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyd-dyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefydlu gwasanaeth Estyn Allan i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn seiliedig ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | Adrodd ar gynnydd | GWYRDD |
| Sefydlu gwasanaeth Estyn Allan i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn seiliedig ar ddarpariaeth uwchradd. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | Adrodd ar gynnydd | GWYRDD |
| **Gwella:** Presenoldeb Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | (2018/19) 67.7% | Cafodd y gwaith o gasglu presenoldeb yn 2020/21 ei ganslo oherwydd Covid-19. | Blwyddyn Academaidd 2021/22<br>50.92%<br>(01/09/2021- 31/03/2022) | Gwella | Blwyddyn Academaidd 2022/23<br>50.9%<br>(01/09/2022 i 31/03/2023)<br>MELYN |
| **Gwella:** Nifer o ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi eu gwahardd. | (2018/19)<br>Gwaharddiadau cyfnod penodol = 5<br>Nifer o ddyddiau = 11<br>Gwaharddiadau parhaol = 1 | Cafodd y gwaith o gasglu presenoldeb yn 2020/21 ei ganslo oherwydd Covid-19. | Gwaharddiadau tymor penodol = 6<br>Nifer y dyddiau = 30.5<br>Gwaharddiadau parhaol = 0 | Gwella | 01/09/2022 - 31/03/2023<br>Gwaharddiadau tymor penodol = 10<br>Nifer y dyddiau = 32.5<br>Gwaharddiadau parhaol = 0<br>MELYN |

## AMCAN 2 - YMGYSYLLTU Â'R RHAI SY'N CHWILIO AM WAITH AC YN DARPARU GWAITH YN Y FWRDEISTREF SIROL ER MWYN HELPU I GYNYDDU NIFER Y BOBL AG ANABLEDDAU SY'N CAEL CYFLEOEDD I WEITHIO A CHODI YMWYBYDDIAETH AM Y BWLCH CYFLOG I'R GRŴP HWN

Graddio'n Gyffredinol fel MELYN

a). Cefnogi ysgolion i gynyddu perfformiad bechgyn ymhob cyfnod allweddol.

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella:** Canran y rhai sy'n ymgeisio am waith drwy 'Cymunedau am Waith a Mwy' yn unigolion ag anableddau neu gyflyrau sy'n cyfyngu ar waith. | 16% (March 2020) | 9% | 25% | 20% | 24% GWYRDD |
| **Gwella:** Nifer y sefydliadau ar yr Adduned Cyflogwyr. | 120 | 65 | 65 | Cynnydd | Mae'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig sydd wedi ariannu staff i gefnogi Adduned Cyflogwyr wedi dod i ben |
| **Gwella:** Nifer / gwerth y Buddion Cymunedol a sicrhawyd drwy broses caffael y Cyngor yn ymwneud â lleihau anghydraddoldeb. | N/A | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Cynnydd | Gwybodaeth ddim ar gael |

## AMCAN 3 - GWELLA HYGYRCHEDD Y CYNGOR.

Graddio'n Gyffredinol fel GWYRDD

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Key actions from the new Digital and ICT Strategy implemented. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Strategy approved by WCBC Executive Board | Adrodd | GWYRDD |
| Continue to identify staff who prepare information for electronic publication and deliver appropriate training. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| Review our website portals and prioritise for accessibility compliance. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |

## AMCAN 4 - CYNNWYS PAWB A SICRHAU EIN BOD YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AM Y RHAI SY'N DEFNYDDIO EIN GWASANAETHAU, GAN GYNNWYS Y RHAI Â NODWEDDION GWARCHODEDIG, I WNEUD PENDERFYNIADAU DA.

Graddio'n Gyffredinol fel GWYRDD

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r Strategaeth Gyfranogi a'r Cynllun Gweithredu. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| Sefydlu cyfeiriadur o gysylltiadau i grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig i'w defnyddio ag ymgynghoriadau ac Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Cwblhawyd | Cynnal | GWYRDD |
| Hyfforddiant Cydraddoldeb ar gael i aelodau etholedig | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | MELYN |
| **Gwella:** Nifer y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhelir drwy Eich Llais Wrecsam. | 38 | 38 | 54 | Cynnydd | 43<br>Cynnydd o'r gwaelodlin<br>GWYRDD |

## AMCAN 5 - HYRWYDDO A DATHLU AMRYWIAETH ETHNIG EIN CYMUNEDAU GAN SICRHAU EU BOD YN CAEL EU CYNNWYS A'U CROESAWU.

Graddio'n Gyffredinol fel GWYRDD

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefydlu prosesau adrodd yn ôl a chydweithio newydd a gwella'r rhai presennol i fynd i'r afael a chyfeirio at densiynau cymunedol yn y gymdogaeth (er enghraifft Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a throseddau casineb eraill). Rhannu'r wybodaeth mewn grŵp Monitro Trosedd Casineb Tactegol a Thensiwn Cymunedol rhanbarthol. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| Mapio ble mae dinasyddion yr UE a chymunedau BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) eraill yn byw a pha sefydliadau llawr gwlad sy'n eu cefnogi (ymgysylltu â'r trydydd sector a phartneriaid i wneud hyn). | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i edrych ar sut y mae rhaglenni sy'n bodoli'n barod a rhai newydd yn dod yn fwy cynhwysol i bawb. | Carreg Filltir | Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| **Gwella:** Trefnu nifer o ddigwyddiadau / gweithgareddau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru i hyrwyddo integreiddio rhwng grwpiau a helpu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cymunedol da. | 1 (digwyddiad trosedd casineb) | Cyfanswm o 39 sesiwn | Cyfanswm o 48 sesiwn | Cynnal | Cyfanswm o 58 sesiwn GWYRDD |
| **Cynnal:** Canran y plant oedran ysgol sydd ar y Cynllun Ailsefydlu Unigolion Diamddiffyn sy'n mynychu addysg llawn amser priodol. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% GWYRDD |

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella:** Nifer o ffoaduriaid Cynllun Ailsefydlu Unigolion Diamddiffyn (oedolion) sy'n cael mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu addysg (ar wahân i ESOL). | 12% | 53% | 43% | Gwella | 60%<br>GWYRDD |
| **Gwella:** Nifer y troseddau casineb sy'n cael eu riportio | 180<br>Data Heddlu Gogledd Cymru | 195 | 311 | Lleihau | 293<br>GWYRDD |
| Hyder a bodlonrwydd dioddefwyr (troseddau casineb) | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Mesurydd perfformiad newydd | Adrodd | Data ddim ar gael am nad ydyw yn y parth cyhoeddus |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb mewn ysgolion i reolwyr, gweithlu a disgyblion. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| Cyfrannu at gynllun ymgysylltu cyhoeddus a datblygu ymgynghoriad ystyrlon gyda'n cymunedau ar eu safbwyntiau ar ddiogelwch yn y Fwrdeistref Sirol. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |

## AMCAN 6 - CEFNOGI AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH LEOL.

Graddio'n Gyffredinol fel MELYN

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arolwg o aelodau etholedig presennol o ran nodweddion gwarchodedig. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ar y trywydd iawn | Arolwg (wedi etholiad llywodraeth leol 2022) | GWYRDD (Arolwg yn fyw ar amser ysgrifennu'r adroddiad, gyda dyddiad cau fymryn yn hwyrach) |
| Gwneud arolwg o ymgeiswyr ar gyfer etholiad llywodraeth leol 2022 o ran nodweddion gwarchodedig. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) Bydd yn darparu gwaelodlin ar gyfer etholiad llywodraeth leol 2027. | GWYRDD (Arolwg yn fyw ar amser ysgrifennu'r adroddiad, gyda dyddiad cau fymryn yn hwyrach) |
| **Gwella:** Cynnydd (a) nifer o ymgeiswyr ar gyfer etholiad lleol 2022. | Mesurydd perfformiad newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) | Methu cymharu gyda gwybodaeth o ymgeiswyr 2017 gan fod y data hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol iawn i ddarparu data gwaelodlin |
| **Gwella:** Cynnydd (b) amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer etholiad leol 2022. | Mesurydd perfformiad newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) | Methu cymharu gyda gwybodaeth o ymgeiswyr 2017 gan fod y data hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol iawn i ddarparu data gwaelodlin |
| **Gwella:** Proffil Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gyd-fynd yn well â phroffil demograffig y Fwrdeistref Sirol. | Mesurydd perfformiad newydd | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd (Mai 2022) | Methu cymharu gyda gwybodaeth o ymgeiswyr 2017 gan fod y data hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol iawn i ddarparu data gwaelodlin |

## AMCAN 7 - GWELLA AMRYWIAETH A MYND I'R AFAEL Â BYLCHAU CYFLOG YNG NGWEITHLU'R CYNGOR.

Graddio'n Gyffredinol fel MELYN

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella:** Amseroldeb data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ein gweithlu. Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod data'n cael ei gyhoeddi cyn pen 12 mis. | Cyhoeddwyd y data erbyn mis Mawrth 2020. | Wedi'i effeithio gan Covid-19 Pandemic | | Cyhoeddwyd erbyn mis Medi 2022. | Cyhoeddwyd GWYRDD |
| Gwella data o ran nodweddion gwarchodedig ein gweithlu - Cynnal cyfathrebu rheolaidd a gwahaniaethol gyda'r gweithlu i annog cyflwyno data cydraddoldeb | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 Pandemic | Ar y trywydd iawn | Adrodd | GWYRDD |
| Datblygu adrodd ar recriwtio ar y we ar gyfer ymgeiswyr am swyddi fesul nodwedd warchodedig ar gyfer 2021/22. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim ar y Trywydd Iawn | Adrodd | OREN |
| Sefydlu camau gweithredu ar gyfer unrhyw dan-gynrychiolaeth mewn ceisiadau am swyddi gan rai â nodweddion gwarchodedig. | Carreg Filltir | Ddim yn cael ei adrodd | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd | OREN |

| Carreg Filltir/Mesur | Data Cymharol 2019/20 neu Waelodlin | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2020/21 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2021/22 | Targed 2022/23 | Sefyllfa Derfynol ar ddiwedd y Flwyddyn 2022/23 (Diwedd Cynllun y Cyngor COMG)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal adolygiad blynyddol o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw fylchau cyflog mewn grwpiau eraill gwarchodedig mewn ymateb i'r data sydd ar gael yn flynyddol am y gweithlu. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 Pandemic | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd | GWYRDD |
| Cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyflog y rhywiau fel sy'n ofynnol dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector gyhoeddus. | Carreg Filltir | Wedi'i effeithio gan Covid-19 Pandemic | Ddim yn cael ei adrodd | Adrodd | OREN |

Ynghyd â monitro ein hamcanion cydraddoldeb rydym hefyd wedi defnyddio data o fewn y cyngor ar gyfer dibenion monitro cydraddoldeb i'n helpu i osod amcanion cydraddoldeb wrth gyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisïau ac arferion sy'n newydd ac yn cael eu diwygio. Mae rhagor o wybodaeth am y defnydd o fonitro cydraddoldeb i'w gael ar ein tudalen we cydraddoldeb.